# Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru – saith mlynedd yn ddiweddarach

Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

**Ionawr 2024**






Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Ein dull gweithredu 4

Prif ddata 5

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau 6

Canfyddiadau manwl 10

Diolchiadau 22

Atodiad 1: Methodoleg 23

Atodiad 2: Canfyddiadau'r arolwg – meintiol 29

Atodiad 3: Canfyddiadau'r arolwg – ansoddol 47

Atodiad 4: Rhestr termau 57


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48326, ISBN digidol 978-1-83577-381-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yr adroddiad 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus'.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i hyrwyddo llais y plentyn a meithrin partneriaethau effeithiol â theuluoedd, yn ogystal â phwysigrwydd cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw.

Yn 2018, sefydlodd Llywydd Is-adran Teuluoedd Gwasanaeth Barnwriaeth y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd Weithgor Cyfraith Gyhoeddus i adolygu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Cyhoeddwyd ei adroddiad terfynol 'Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems' ym mis Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau arferion gorau ac yn gwneud nifer o argymhellion gan gynnwys rhoi cymorth i deuluoedd a gweithio gyda nhw cyn achos llys, a rheoli achosion. Hefyd, 'ail-lansiodd' Llywydd yr Is-adran Teuluoedd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ym mis Ionawr 2023.

Wrth arfer ein rôl o ran craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau, mae'r adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ystyried yr argymhellion a wnaed yn y darnau hyn o waith ac yn archwilio'r graddau y maent yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Wrth nodi'r cyd-destun ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n bwysig tynnu sylw at yr heriau presennol a wynebir gan y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel y nodwyd gan Gillian Baranski, Prif Arolygydd AGC yn adroddiad yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023:

**"Mae'n amhosibl anwybyddu'r heriau sylweddol rydym yn eu hwynebu wrth roi gofal a chymorth i blant yng Nghymru. Mae anghenion plant a theuluoedd yn gynyddol gymhleth. Mae breguster ym mhob rhan o'r gweithlu ac adnoddau cyfyngedig ym mhob sector wedi arwain yn anochel at achosion o oedi wrth roi cymorth i blant a theuluoedd. Mae angen cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad awdurdodau lleol a'u hasiantaethau partner sy'n rhan o'r broses o ddiogelu plant a phobl ifanc a gwerthfawrogi hynny. Mae'r un peth yn wir am y rheini sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd drwy broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r prosesau cysylltiedig."**



# Ein dull gweithredu

Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r saith egwyddor graidd ar gyfer arferion da a nodwyd yn adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, ac yn edrych eto ar y cwestiynau a ofynnwyd yn ein hadolygiad cenedlaethol yn 2016.

Mae'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ddau faes gwaith:

### Arolygon a ddosbarthwyd i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru

- Proffil y plant a'r bobl ifanc a ddechreuodd dderbyn gofal ac a oedd yn destun proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus/y broses cyn-achos rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.
- Cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol yn eu harferion cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw arferion gorau neu rwystrau i welliant a nodwyd.

### Gwaith maes manwl mewn pedwar awdurdod lleol

- Adolygiad o nifer bach o gofnodion gofal cymdeithasol ym mhob awdurdod lleol yn seiliedig ar feini prawf a nodwyd ymlaen llaw.
- Roedd llais plant a phobl ifanc yn rhan ganolog o'r adolygiad hwn a lle bynnag y bo'n bosibl, gwnaethom siarad yn uniongyrchol â phawb a oedd yn rhan o broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus/ y broses cyn-achos, gan gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bedair llinell ymholi allweddol:

1. **A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?**
2. **A oes trefniadau ar waith i gefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol a phrosesau cynllunio cydweithredol â rhieni/unigolion arwyddocaol eraill mewn perthynas â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys cyfleoedd i newid?**
3. **A yw'r trefniadau cynllunio gofal a chymorth yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?**
4. **A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?**

Gallwch weld dadansoddiad manylach o'r gwaith a wnaed ynghyd â'n canfyddiadau yma Atodiad 1.

# Prif ddata


**1,716** Cyfanswm y plant a ddechreuodd dderbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.



O'r **1,716** o blant a oedd yn derbyn gofal o fewn amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, roedd **876** o blant **(51%)** wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y 3 blynedd diwethaf.



**Nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ôl proffil oedran:**



# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

### 1. A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?

- Plant sydd wrth wraidd y penderfyniadau a wneir ac arferion gweithredol, ac maent yn rhan ganolog o'r prosesau ar gyfer meddwl yn strategol mewn awdurdodau lleol. Mae dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sail i ymarfer, yn unol ag egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch plant wrth i awdurdodau lleol weithio i atal plant a phobl ifanc rhag mynd yn rhan o achos llys lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Lle nodir risgiau i blant, mae system gynhwysfawr a chlir ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i olrhain ac adolygu achosion drwy lwybrau gofal, cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol a chamau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- Mae teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newidiadau effeithiol, cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni.
- Ceir gwelliant amlwg o ran y canlyniadau i blant lle gellir sicrhau gweithiwr cymdeithasol parhaus, a phan fydd yr ymarferwyr cysylltiedig yn adnabod y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw'n dda.
- Mae adborth gan bartïon eraill, gan gynnwys CAFCASS a'r farnwriaeth yn awgrymu bod y defnydd o weithwyr cymdeithasol dros dro/ asiantaeth yn broblem gynyddol ledled Cymru. Er na wnaeth ein gwaith maes nodi bod hon yn broblem benodol, nododd rhai uwch-reolwyr awdurdodau lleol hefyd yr effaith aflonyddgar y gall diffyg gweithwyr cymdeithasol profiadol ei chael wrth geisio goruchwylio gwaith yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn effeithiol.
- Caiff cynlluniau sydd â'r nod o wella canlyniadau i blant eu cefnogi'n well gan deuluoedd, rhieni a gofalwyr pan fydd cysylltiad clir rhwng y cam gweithredu a nodir, ei effaith ar y plentyn, a'r newid sy'n ofynnol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau gofal a chymorth a welsom yn drylwyr, yn amserol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd yr asesiadau gorau wedi'u teilwra i adlewyrchu a dadansoddi anghenion a phryderon unigol a nodwyd yn benodol.
- Byddai plant yn gallu gwneud defnydd gwell o'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus pe byddai iaith fwy clir yn cael ei defnyddio, er mwyn eu gwneud yn haws i'w deall.
- Dylid rhannu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r prosesau cysylltiedig fel mater o drefn â phlant a'u teuluoedd, a dylai'r cofnodion nodi hyn yn glir. Nid oedd hyn i'w weld fel arfer safonol yn y pedwar awdurdod lleol y gwnaethom ymweld â nhw.
- Lle mae brodyr a chwiorydd yn rhan o'r achos, dylid ystyried amgylchiadau unigryw pob plentyn unigol a'u cofnodi ar wahân fel rhan o'u cofnodion gofal cymdeithasol unigol.
- Roedd pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn ystod ein gweithgarwch gwaith maes wedi creu fframwaith cadarn er mwyn sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi'i fodloni. Hyd yn oed lle nad oedd y trothwy wedi'i fodloni, mae'r awdurdodau lleol yn parhau i wneud popeth o fewn eu gallu i osgoi achos llys, sydd – yn unol ag egwyddorion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus – yn cael ei ystyried fel opsiwn pan fetho popeth arall.

## 2. A oes trefniadau ar waith i gefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol a phrosesau cynllunio cydweithredol â rhieni/unigolion arwyddocaol eraill mewn perthynas â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys cyfleoedd i newid?

- Mae trefniadau gan awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i weithio mewn partneriaeth gydweithredol â theuluoedd yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau amserol ac effeithiol fel rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- Gwelsom sawl enghraifft o ddulliau integredig amserol yn darparu cymorth effeithiol i blant a'u teuluoedd gan amrywiaeth o asiantaethau partner, yr oedd eu prosesau rhyngweithio cydgysylltiedig wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y rhai dan sylw.
- Eir i'r afael â phryderon diogelu uniongyrchol gan ddilyn cynlluniau diogelwch wedi'u cydlynu'n dda.
- Mae'r penderfyniadau amlasiantaethol a wneir yn arwain at ddull gweithredu cydlynol gwell o sicrhau diogelwch plant drwy ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau sawl adran ac asiantaeth. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gadw plant a phobl ifanc gartref gyda'u teuluoedd pan fo hynny'n briodol, yn aml o dan amgylchiadau cymhleth iawn.
- Mae amrywiaeth dda o wasanaethau help ac atal cynnar sydd wedi ymsefydlu'n gadarn ar gael i blant a theuluoedd. Mae'r rhain fwyaf effeithiol pan gaiff gwybodaeth ei chasglu'n effeithiol o'r cychwyn cyntaf a'i defnyddio i sicrhau bod teuluoedd yn cael cyngor a chymorth amserol.
- Mae argaeledd a hygyrchedd dogfennaeth ategol sy'n rhoi esboniad clir o broses ehangach yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'n ei olygu i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr yn amrywio, ac nid yw'n bodoli o gwbl mewn rhai achosion.
- Mae diffyg llenyddiaeth ategol yn amlwg yn atal cyfranogwyr rhag gallu deall proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, drwy gyfnod a all fod yn heriol ac yn anodd.



## 3. A yw'r trefniadau cynllunio gofal a chymorth yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?

- Mae'r broses o wneud penderfyniadau ar sefydlogrwydd yn amserol ar y cyfan, a chaiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn osgoi oedi yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae tystiolaeth amlwg fod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud i gychwyn achos gofal, a bod y cyfiawnhad dros y penderfyniad hwn yn cael ei nodi'n fanwl. Ar ôl i achosion gofal ddechrau, mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn eu cylch fel arfer o fewn yr amserlen a ragnodwyd, sef 26 wythnos. Pan fydd achosion o oedi, bydd awdurdodau yn ceisio deall y rheswm dros yr oedi hwnnw ac yn ceisio helpu i hwyluso gwelliannau yn y dyfodol.
- Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd lle bo'n ddiogel iddynt wneud hynny, yn unol â Chanllawiau Arferion Gorau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn diwylliant sefydledig o beidio â chychwyn achos oni bai fod llwybrau eraill wedi'u hystyried. Dim ond pan fo hynny'n amlwg er lles pennaf y plant y byddant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd.



- Mae'n amlwg bod swm sylweddol o waith uniongyrchol a wneir gan weithwyr cymdeithasol o fudd i'r plant, ac mae'n hanfodol sicrhau y gallant barhau i wneud hynny. Mae uwch-reolwyr yn deall yr angen i gynnal y lefel hon o ymrwymiad ac mae hyn yn parhau i gael ei gyflawni'n llwyddiannus ar y cyfan, er gwaethaf y pwysau dwys a wynebir yn aml gan y gweithlu a'r heriau eraill a wynebir gan awdurdodau lleol.
- Mae effaith gadarnhaol dulliau fel Cynadleddau Grŵp Teulu i hwyluso trefniadau cynllunio cynnar ac effeithiol ar gyfer sicrhau sefydlogrwydd ar y canlyniadau i blant yn cael ei chydnabod yn eang. Fodd bynnag, mae'r defnydd ohonynt i nodi a chynnwys rhwydweithiau teulu ehangach yn ystod y cam cynharaf posibl yn y broses cyn-achos yn gymysg, a gellid ei wella.
- Mae'r ffaith na wnaeth mwy na hanner y plant a'r bobl ifanc a oedd yn rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ystod cyfnod yr arolwg ddod yn rhan o achos cyfreithiol yn awgrymu y gall y broses hon fod yn effeithiol o ran lleihau'r angen i weithredu ymyriadau mwy ffurfiol mewn llys. Gellir ystyried hefyd bod y nifer cymharol isel o blant a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ôl dechrau derbyn gofal yn adlewyrchu canllawiau arferion da y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus.

### 4. A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?

- Caiff plant help i ddeall eu hawliau ac mae hyn wedi'i ategu gan gydnabyddiaeth gadarnhaol o'r angen i hyrwyddo ethos hawliau plant.
- Caiff plant eu hannog i fanteisio ar gymorth eiriolaeth drwy asiantaethau a gomisiynir yn annibynnol er mwyn helpu i sicrhau y caiff eu llais ei glywed pan fydd cynlluniau yn cael eu llunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae angen hyrwyddo mynediad i wasanaethau eirioli yn gynharach yn ystod y broses ac i wneud hynny mewn ffordd fwy pendant, yn hytrach na dim ond cofnodi bod y 'cynnig rhagweithiol' wedi cael ei wneud.
- Mae'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael i rieni sy'n gysylltiedig â phroses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn amrywio ac mae angen mynd ati i'w hyrwyddo'n fwy.
- Mae'n amlwg bod y broses o ymgymryd â gwaith helaeth i ganfod barnau unigol plant, sy'n aml yn waith sensitif, o fudd i blant. Fodd bynnag, nid yw arferion o'r fath ar waith fel mater o drefn, sy'n golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau bod dulliau gweithredu sy'n anelu at gofnodi llais y plentyn/person ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n llawn drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.
- Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff llais y plentyn ei ystyried a'i gofnodi fel mater o drefn fel rhan ganolog o bob Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chynllunio gofal.
- Gellir colli profiad bywyd plant unigol pan gânt eu cynrychioli fel rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd yn unig, heb roi cyfle i adlewyrchu llais pob plentyn ar wahân.
- Mae angen rhoi dulliau effeithiol ar waith i sicrhau bod dogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael ei rhannu â phlant fel mater o drefn, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn eu cofnod gofal cymdeithasol.
- Gwelsom fod dymuniadau a theimladau plant, yn enwedig plant hŷn, yn amlwg yn dylanwadu ar benderfyniadau am ble y byddent yn byw. Fodd bynnag, er gwaethaf gweithgarwch recriwtio, comisiynu a chymorth lleoli parhaus, cydnabyddir bod diffyg amrywiaeth a dewis o leoliadau ar gael i fodloni'r galw presennol. Mae hyn yn golygu na chaiff rhai plant y diogelwch sy'n gysylltiedig â byw mewn lleoliadau cofrestredig.



# Canfyddiadau manwl

## Llinell Ymholi Allweddol 1

**1. A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?**

- Mae dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sail i ymarfer, yn unol ag egwyddorion craidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gwelsom dystiolaeth dda bod plant yn rhan greiddiol o brosesau meddwl yn strategol, prosesau gwneud penderfyniadau ac arferion gweithredol.
- Dangosodd ymatebion i'r arolwg bod awdurdodau lleol yn defnyddio modelau ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwaith sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gefnogi penderfyniadau ac ymyriadau amserol a chymesur.
- Mae prosesau gwneud penderfyniadau a arweinir gan wybodaeth broffesiynol wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu cynnal o fewn fframwaith o gyfarfodydd neu adolygiadau panel yn ystod y cyfnod cyn unrhyw gyfarfod porth cyfreithiol.
- Mae'r cyfarfodydd proffesiynol hyn yn cynnig cyfle i ystyried unrhyw fylchau mewn asesiadau, cynlluniau ac ymyriadau ac ymdrin â nhw ac i werthuso'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod pob llwybr dichonadwy wedi cael ei ystyried yn weithredol er mwyn osgoi ymyriadau gan y llysoedd i blant a theuluoedd. Mae'n amlwg bod staff yn gwerthfawrogi'r dull hwn ac yn teimlo bod y trefniadau cadarn yn cefnogi ac yn hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol eu hunain hefyd.
- Mae'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn ystod ein gweithgarwch gwaith maes wedi sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi'i fodloni.

**Yn Rhondda Cynon Taf, roedd y dull gweithredu wedi'i ailwerthuso'n ddiweddar fel rhan o adolygiad cynhwysfawr i'w brosesau ehangach mewn perthynas â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a lywiwyd gan adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus.**

- Mae'r awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y plentyn, ond gan ar yr un pryd weithio i atal plant a phobl ifanc rhag mynd yn rhan o achos llys lle y bo'n bosibl.
- Gwnaethant nodi bod arferion yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan 'brofiad bywyd y plentyn' gan gynnwys dealltwriaeth broffesiynol gyffredin o ystyr hynny. Nod y diwylliant hwn sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd yw hybu canlyniadau cadarnhaol, gan sicrhau ar yr un pryd y caiff risgiau a phryderon eu nodi a'u rheoli'n briodol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gweithwyr cymdeithasol yn hyderus bod arferion yn seiliedig ar gydberthnasau yn eu helpu i gynnal sgyrsiau cadarn â theuluoedd, gan eu galluogi i ddeall y risgiau a'r ffactorau amddiffynnol mewn perthynas â'r plentyn yn well.



- Ceir enghreifftiau o ymarfer gwell pan geir cydberthynas barhaus â'r un gweithiwr cymdeithasol dros gyfnod o amser, a phan fydd yn amlwg bod ymarferwyr yn adnabod y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw.
- Mae angen gwella rhai asesiadau am nad ydynt yn cynnwys dadansoddiad digon clir nac yn nodi'n ddigon manwl yr opsiynau posibl a'r ffyrdd posibl ymlaen gan ystyried y cryfderau, yr heriau a'r risgiau a nodwyd yn unigol.
- Gwelsom achosion o oedi wrth gynnal asesiadau hefyd, a allai atal y broses o wneud penderfyniadau ac, yn y pen draw, effeithio ar y gallu i ddarparu cymorth amserol.
- Mae'n amlwg bod rhai asesiadau yn nodi cryfderau'r plentyn unigol a'r aelodau o'i deulu a nodwyd yn glir, ond byddai'r rhain yn fwy cadarn pe byddent wedi'u cysylltu'n fwy amlwg â phroses benodol i leihau risg. Byddai asesiadau eraill yn well pe byddent wedi nodi risgiau ac yn monitro'r risgiau a nodwyd yn gliriach.

**Yn Rhondda Cynon Taf, mae cofnodion gofal cymdeithasol yn nodi pryderon yn glir, a gwelsom fod y ddogfen dadansoddi opsiynau fanwl yn cael ei defnyddio fel sail i wneud penderfyniadau cytbwys er lles pennaf y plant a'r bobl ifanc, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau cysylltiedig.**

- Mae'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn dangos ar y cyfan bod gan asiantaethau partner ddealltwriaeth glir o drothwyon wrth wneud atgyfeiriadau diogelu.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae awdurdodau lleol wedi rhoi dulliau ar waith fel cyfarfodydd adolygu cymheiriaid ar y cyd ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau ansawdd eu prosesau gwneud penderfyniadau cynnar a'r dull o reoli risg.
- Mae teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newidiadau effeithiol, cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni. Unwaith eto, yn yr enghreifftiau gorau, caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, drwy gynnig amrywiaeth helaeth o fathau o gymorth penodol wedi'u teilwra'n arbennig i gydnabod y cryfderau a nodwyd ac i adeiladu arnynt, ac i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.
- Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau gofal a chymorth a welwyd yn drylwyr, yn amserol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r asesiadau gorau wedi'u teilwra i adlewyrchu a dadansoddi anghenion unigol a nodwyd yn benodol. Maent hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn nodi cryfderau'r teulu yn glir ac yn cofnodi'r materion yn deillio o'r sgwrs 'beth sy'n bwysig' yng ngeiriau'r plentyn a'r teulu eu hunain, gan gyfleu ymdeimlad clir o'u profiad bywyd.
- Lle caiff y cynnydd a wneir yn erbyn disgwyliadau penodol y cynllun eu cofnodi'n glir mewn perthynas â phrofiad y plentyn a gallu'r rhieni i newid, mae'r rhain yn arbennig o effeithiol. Caiff cynlluniau eu cefnogi'n well gan deuluoedd/rhieni/gofalwyr pan fydd cysylltiad clir rhwng y cam gweithredu, yr effaith ar y plentyn, a'r newid sy'n ofynnol.
- Caiff risgiau eu nodi'n glir, ac mae pawb sy'n rhan o'r broses yn deall y ffordd orau o leihau'r risgiau hyn, eu rheoli a / neu eu gwella.

**Yn yr enghreifftiau gorau a welsom, mae'r broses o nodi a dadansoddi risgiau wedi'i chyflwyno'n effeithiol, gan nodi'n glir y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan arwain at opsiynau cadarnhaol i'r rhieni/gofalwyr a'r plant.**

- Lle nodir risgiau i blant, mae system glir a chynhwysfawr ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i olrhain ac adolygu achosion drwy lwybrau gofal, cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol a chamau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Gwelsom nifer o enghreifftiau lle roedd teuluoedd wedi cael eu dargyfeirio'n briodol allan o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, lle roedd y risg i'r plant dan sylw wedi cael ei lleihau'n sylweddol ac nad oedd angen eu hamddiffyn ymhellach drwy ddulliau cyfreithiol.
- Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith i reolwyr oruchwylio prosesau cyn-achos o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Er hynny, mewn rhai achosion gallai gwelliannau i'r trefniadau sicrhau ansawdd wella cyfleoedd i ddysgu a helpu i lywio ymarfer yn y dyfodol.
- Mae'r penderfyniadau a wneir yn amserol, wedi'u harwain gan wybodaeth broffesiynol, a'u llywio gan asesiadau perthnasol (gan gynnwys asesiadau cyn-geni). Mae'r trefniadau mwyaf effeithiol wedi'u hategu gan systemau TG penodol a gynlluniwyd i olrhain plant a theuluoedd drwy bob cam o broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

**Yn Nhorfaen, gwelsom fodiwl 'Gwrandawiad Llys' penodol ar gronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a oedd ar gael i gyfreithwyr yr awdurdod lleol hefyd. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ran cael gafael ar ddogfennau allweddol yn hawdd a hwyluso'r broses o fonitro cynnydd ac atal gwyro. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd y 'pwyntiau sbardun' ar gyfer ystyried yr angen am gyngor cyfreithiol yn rhan greiddiol o drefniadau amddiffyn plant a threfniadau plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod.**

Ym mhob enghraifft bron, byddai defnyddio iaith fwy clir yn gwella hygyrchedd y cofnodion i blant a phobl ifanc drwy sicrhau eu bod yn haws eu deall. Ni welsom dystiolaeth bod dogfennau'n cael eu rhannu â phlant na'u teuluoedd fel mater o drefn yn dilyn cyfarfodydd neu ddiweddariadau, sy'n ddiffyg sylweddol.

Lle ceir brodyr a chwiorydd, dylid ystyried amgylchiadau unigryw pob plentyn unigol a'u cofnodi ar wahân yn eu dogfennau cynllunio gofal.



## Llinell Ymholi Allweddol 2

**2. A oes trefniadau ar waith i gefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol a phrosesau cynllunio cydweithredol â rhieni/unigolion arwyddocaol eraill mewn perthynas â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys cyfleoedd i newid?**

- Mae trefniadau i weithio mewn partneriaeth gydweithredol â theuluoedd yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau amserol ac effeithiol fel rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Gwelsom fod teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newid effeithiol cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni.
- Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos pan fyddai rhieni yn ymgysylltu'n llwyddiannus er mwyn helpu i wella bywydau eu plant, y byddai'r gwaith cynllunio cyfreithiol yn dod i ben ond y byddai gwasanaethau gofal a chymorth priodol yn parhau fel y bo angen. Yn yr un modd, mae'n amlwg pan na chaiff y gwelliannau a nodwyd eu cyflawni, bod yr awdurdodau lleol yn cymryd camau amserol ac awdurdodol.
- Mae cyfarfodydd amlasiantaethol i ystyried cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar yn cynnig dull mwy cydlynol o sicrhau diogelwch plant, drwy ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau sawl adran ac asiantaeth.



- Gwelsom enghreifftiau ardderchog o awdurdodau lleol yn cadw plant a phobl ifanc gartref gyda'u teuluoedd, o dan amgylchiadau cymhleth iawn, a oedd yn aml yn cynnwys trefniadau effeithiol i gydlynu cymorth gan amrywiaeth o asiantaethau partner.

> **"Dyw fy mhlant ddim mewn gofal maeth. Maen nhw wedi fy helpu i'w cadw'n ddiogel. Rwy'n deall sut mae bod yn rhiant nawr, ac rwy'n dad gwell. Alla i ddim meddwl am unrhyw beth gallen nhw fod wedi ei wneud yn well."**
>
> (Sylw gan dad)

- Eir i'r afael â phryderon diogelu uniongyrchol gan ddilyn cynlluniau diogelwch wedi'u cydlynu'n dda. Gwelwyd tystiolaeth bod cymorth effeithiol yn cael ei roi gan bartneriaid fel rhan o'r broses ddiogelu, drwy gyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos cychwynnol â lefelau presenoldeb da.

**Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gwelsom drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gydweithredol ar waith wrth arsylwi ar baneli 'Ar Ffiniau Gofal' ac 'Ymyrryd yn Gynnar', lle cafwyd lefelau presenoldeb da gan amrywiaeth o asiantaethau partner a sefydliadau.**

- Gwelir y canlyniadau gorau pan fydd amrywiaeth dda o wasanaethau help ac atal cynnar sydd wedi ymsefydlu'n gadarn ar gael i blant a theuluoedd. Mae'r rhain fwyaf effeithiol pan gaiff gwybodaeth ei chasglu'n effeithiol o'r cychwyn cyntaf a'i defnyddio i sicrhau bod teuluoedd yn cael cyngor a chymorth amserol. Yna gellid eu cyfeirio at y lefel gywir o ymyriadau priodol.
- Caiff adolygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus o'r defnydd o Adran 76 ei groesawu ar y cyfan gan awdurdodau lleol ac maent o'r farn ei fod yn atgyfnerthu gwaith partneriaeth â theuluoedd.

Mae hyn hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn wrth i ymyriadau perthnasol, gan gynnwys gwaith ailuno, gael eu rhoi ar waith. Cafodd cynnydd diweddar yn y defnydd o orchmynion Adran 76 ei esbonio gan awdurdodau lleol yn rhannol drwy gyfeirio at y nifer uwch o deuluoedd a chwalodd yn sgil y pandemig. Mae hefyd yn bwysig nodi defnydd awdurdodau lleol o'r mesur hwn, ynghyd ag ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau, er mwyn helpu i sicrhau bod plentyn yn dychwelyd adref mewn ffordd amserol.

- Mae awdurdodau lleol yn awyddus i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r hyn a ddisgwylir ganddynt pan gaiff proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ei rhoi ar waith, gan atgyfnerthu'r manteision a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chydweithio.
- Gwelsom fod gan weithwyr cymdeithasol a'u huwch-reolwyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae trefniadau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn gweithio yn eu maes gwaith, ynghyd ag ymrwymiad i hysbysu plant a theuluoedd am yr hyn y mae'r broses yn ei olygu iddyn nhw. Yn anochel, cyfyngwyd ar rai o'r trefniadau sefydledig a oedd ar waith i hysbysu rhieni a gofalwyr am oblygiadau penodol proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan nad oedd modd cyfathrebu wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig diweddar.

> **"Dydw i erioed wedi teimlo nad oedd cymorth ar gael i mi neu fy mod ar fy mhen fy hun wrth ymdopi ag achosion o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'r broses gwneud penderfyniadau yn glir iawn ac rwy'n gwybod y galla i gysylltu ag unrhyw un o'r tîm rheoli, gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Plant, os bydd angen i mi wneud hynny."**
>
> (Sylw gan ymarferydd)

- Mae'r 'llythyr cyn gweithredu' yn ddogfen allweddol, sy'n anelu at esbonio i rieni beth yw'r risgiau sy'n arwain at benderfyniad gan awdurdod lleol i ystyried rhoi proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar waith. Mae hyn hefyd yn nodi beth y gallan nhw a'u rhwydweithiau cymorth ehangach ei wneud er mwyn sicrhau newid cadarnhaol ac osgoi ymyriadau cyfreithiol pellach. Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i ddiwygio hyn lle bo angen, yn unol ag Argymhellion Arferion Gorau'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, ac er mwyn gwella eglurder a hygyrchedd y ddogfen hon.

> **"Yn fy marn i, mae'r llythyr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cynnig cyfle arall i ymgysylltu. Nid dim ond llythyr mohono, mae'n gyfle i eistedd gyda'r rhieni ac i nodi beth maen nhw'n ei wneud yn dda a beth yw'r pryderon. Mae wedi bod yn adnodd defnyddiol iawn o ran helpu rhieni i ymgysylltu ac i ddeall."**
>
> (Sylw gan ymarferydd – Rhondda Cynon Taf)

**Yng Nghastell-nedd Port Talbot, caiff hyn ei ategu gan ddogfen 'siarter' (eto yn unol ag argymhellion y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus) gyda'r nod o hyrwyddo cydberthynas weithio effeithiol â pharch o'r ddwy ochr rhwng teuluoedd ac ymarferwyr pan fydd plant yn destun ymyriad statudol.**

- Mewn achosion lle nad yw'r trefniadau cyfathrebu yn ystod y cam pwysig hwn wedi'u rheoli'n dda, mae'r effaith andwyol bosibl ar y canlyniadau i blant a'u teuluoedd yn sylweddol. Er enghraifft, oherwydd oedi cyn anfon dogfennaeth yn sgil newidiadau anochel i ymarferwyr allweddol. Mewn achosion eraill nid oedd llythyr wedi cael ei addasu'n briodol i adlewyrchu anghenion dysgu ychwanegol y derbynwyr. Mewn un proses asesu a welsom, cydnabuwyd bod gan y ddau riant anawsterau dysgu a'u bod

yn agored i niwed. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei ystyried yn benodol gan yr awdurdod lleol wrth ystyried y trefniadau dilynol ar gyfer cysylltu a chyfathrebu, fel y llythyr cyn-achos, y cynlluniau asesu rhianta a'r cyfarfodydd cynhadledd grŵp teulu.

- Mae ymarferwyr, gan gynnwys y rheini sydd newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol a recriwtiwyd yn ddiweddar, yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â hyfforddiant mewn pynciau penodol, gan gynnwys proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae hyn yn cynnig y budd mwyaf pan gaiff staff o asiantaethau partner fel iechyd ac addysg eu cynnwys mewn mentrau o'r fath, gan felly wella eu dealltwriaeth ar y cyd o'r rolau a'r cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Soniodd rhai partneriaid amlasiantaeth fod eu dealltwriaeth o'u rôl benodol o ran yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac o'r trothwyon yn gyfyngedig. Gallai sawl un nodi'r trothwyon ar gyfer niwed sylweddol ond nid y trothwyon sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac nid oeddent yn ymwybodol o ddogfennaeth am y trothwyon.

**Clywsom, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill, fod gan Dorfaen fentrau hyfforddi ar y cyd ar waith eisoes gyda Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru, fel rhan o'i raglen sefydlu, ac yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r adran gwasanaethau cyfreithiol yn darparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.**

Mae argaeledd a hygyrchedd dogfennaeth ategol sy'n esbonio proses ehangach yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'n ei olygu i blant/pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr yn amrywio. Mae'n anochel bod diffyg llenyddiaeth ategol hygyrch yn atal y gallu i gyfathrebu â chyfranogwyr, drwy gyfnod a all fod yn heriol ac yn anodd.

Yn ddiweddar, mae rhai awdurdodau wedi ailystyried hyn ac wedi ailddylunio taflenni gwybodaeth, ac roedd eraill wedi nodi'r angen i wneud hynny, fel mater o flaenoriaeth. Clywsom fod ymarferwyr, fel mater o drefn, yn treulio amser yn esbonio'r broses ei hun a'r goblygiadau penodol i'r unigolion hynny dan sylw, i'w helpu i ddeall proses a all fod yn gymhleth yn well.

## Llinell Ymholi Allweddol 3

**A yw'r trefniadau cynllunio gofal a chymorth yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?**

- Yn unol â Chanllawiau Arferion Gorau yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, mae'n amlwg bod awdurdodau lleol yn ymrwymedig i helpu plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Gwelsom hyn yn cael ei adlewyrchu mewn diwylliant sefydledig o beidio â chychwyn achos oni bai fod llwybrau eraill wedi'u hystyried.
- Dim ond pan fo hynny'n amlwg er lles pennaf y plant y byddant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd. Roedd asiantaethau eraill yn cymeradwyo'r dull hwn, gan gynnwys CAFCASS Cymru a gadarnhaodd y bydd amrywiaeth o ymyriadau wedi cael eu hystyried cyn troi at y llys.
- Caiff cynnydd plant sy'n destun cynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal ei adolygu'n rheolaidd, yn unol ag amserlenni penodol.



- Yn yr enghreifftiau gorau, caiff cymorth wedi'i deilwra'n benodol ei ddarparu ar gam cynnar. Er enghraifft, wrth i'r asesiadau gael eu cynnal, ac mae'r cynlluniau gofal a chymorth dilynol yn cynnwys amserlenni realistig ar gyfer cyflawni canlyniadau penodol a nodwyd.
- Mae gweithwyr cymdeithsol yn gwneud llawer o waith uniongyrchol gyda phlant, ac mae'n hanfodol sicrhau y gallant barhau i wneud hynny. Mae uwch-reolwyr yn deall yr angen i gynnal y lefel hon o ymrwymiad ac mae hyn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus ar y cyfan, er gwaethaf y pwysau dwys a wynebir yn aml gan y gweithlu a'r heriau eraill a wynebir gan awdurdodau lleol.

> Cydnabyddir y defnydd o ddulliau gweithredu fel cynadleddau grŵp teulu, asesiadau hyfywedd cynnar a genogramau, ac effeithiolrwydd posibl dulliau o'r fath o ran helpu i lunio cynlluniau cynnar effeithiol i sicrhau sefydlogrwydd. Fodd bynnag, mae'r darlun o ran rhoi dulliau o'r fath ar waith, er enghraifft mewn perthynas â nodi a chynnwys rhwydweithiau teulu ehangach ar gam cynnar yn y broses cyn-achos, yn gymysg.

- Pan oeddent yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, gwelsom fod ymarferwyr yn amlwg yn rhoi cymorth i deuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach deimlo eu bod wedi'u grymuso fel rhan o'r ymdrech i hwyluso canlyniadau gofal a chymorth yn seiliedig ar gryfderau yn ystod cam cynharach. Mewn enghreifftiau eraill, mae'n amlwg bod cyfleoedd i ail-lunio rhai o'r sgyrsiau ynghylch rhwydweithiau cymorth anffurfiol yn cael eu colli, a fyddai fel arall wedi helpu i leihau achosion o oedi wrth nodi ac asesu gofalwyr amgen.

- Lle ceir newidiadau sylweddol yn ystod proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gofynnir am gyngor mewn modd amserol er mwyn cynyddu neu leihau lefel yr ymyriadau fel y bo'n ofynnol, gan ar yr un pryd leihau oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae angen gwneud rhagor o waith ar gynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau bod yr arferion da a welir yn y maes hwn yn cael eu cymhwyso'n fwy cyson.

- Mae'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn amserol ar y cyfan, a chaiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud i gychwyn achos gofal, a bod y cyfiawnhad dros y penderfyniad hwnnw yn cael ei nodi'n fanwl. Ar ôl i achosion gofal ddechrau, mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn eu cylch fel arfer o fewn yr amserlen o 26 wythnos. Pan fydd achosion o oedi, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio deall y rheswm dros yr oedi hwnnw ac yn ceisio helpu i hwyluso gwelliannau yn y dyfodol.

- Cadarnhaodd canfyddiadau'r arolwg, o blith y rheini a ddaeth yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod amserlen ein harolwg o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, mai ychydig dros eu hanner oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Yn unol â chanfyddiadau ein gwaith maes, nododd awdurdodau lleol fod y nifer cymharol uchel o blant sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn iddynt ddechrau derbyn gofal yn adlewyrchu eu strategaethau atal seiliedig ar gryfderau sy'n anelu at atal ymyriadau statudol pellach. Mae hyn yn unol â disgwyliadau'r Canllawiau Arferion Da.

- Gellid ystyried hefyd bod y niferoedd cymharol isel o blant sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ôl dechrau derbyn gofal hefyd yn adlewyrchu canllawiau arferion da y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus. Mae hyn yn dangos y broses effeithiol o fonitro cynlluniau gofal unigol, ac ymateb rhagweithiol i newidiadau yn yr anghenion neu'r risgiau a aseswyd.

- Fel y nodwyd yn adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn mabwysiadu arferion (neu wrthi'n gwneud hynny) a oedd yn unol ag adroddiad Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, **Born into care** (Hydref 2018). Mewn perthynas ag asesiadau cyn-geni o dan y fframwaith hwn, gwelsom fod tystiolaeth dda o'r canlynol:
  - trefniadau priodol ar gyfer nodi risgiau yn gynnar ac atgyfeirio achosion yn gynnar gan weithwyr iechyd proffesiynol, a chydberthnasau gwaith agos â gwasanaethau mamolaeth
  - ymateb diogelu amserol i atgyfeiriadau ac asesiadau a oedd yn arwain at gamau prydlon a chymesur gan staff profiadol a oedd yn canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i blant a theuluoedd
  - ymdrechion parhaus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan weithwyr proffesiynol i ymgysylltu â theuluoedd gan anelu at helpu plant i aros yn y teulu biolegol os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny
  - defnydd creadigol o adnoddau a chomisiynu lleoliadau; er enghraifft, gall lleoliadau i deuluoedd a babanod bontio i gymorth cymunedol fel y bo angen
  - pan welir gwaith cynllunio effeithiol wrth gefn yn ystod y cam cyn-achos, roedd hyn yn dueddol o arwain at ganlyniadau mwy amserol pan na allai'r rhieni biolegol ofalu am eu plentyn yn y tymor hwy.



- Clywsom fod gwasanaethau cymorth arbenigol ar gael i fenywod sydd wedi cael mwy nag un beichiogrwydd lle cafodd y plant eu cymryd oddi wrthynt, fel prosiect MAGU yn Rhondda Cynon Taf a phrosiect Pause yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mewn mannau eraill.
- Mewn enghreifftiau eraill, dywedodd y rheolwyr wrthym am heriau mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer babanod heb eu geni, yn enwedig pan na fyddai’r awdurdod lleol ond yn cael gwybod am famau yn hwyrach yn y broses. Lle bynnag y bo’n bosibl, roeddent yn ymyrryd yn gynnar ac yn darparu cymorth i’r rhiant, gan ystyried lleoliadau i’r fam a’i babi fel y bo’n briodol. Ni chaiff achos gofal o reidrwydd ei gychwyn pan gaiff y babi ei eni, ac maent yn ceisio rhoi cymorth ar sail wirfoddol lle bynnag y bo’n bosibl.
- Clywsom fod sefyllfaoedd mwy cymhleth fel y sefyllfaoedd hynny lle mae angen barn feddygol a/neu brosesau llys helaethach yn achosi mwy o her i awdurdodau lleol a’u hasiantaethau partner o ran cymryd camau ataliol.



**Yn dilyn ei adolygiad diweddar o’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, nododd Rhondda Cynon Taf fod angen gwella’r gwasanaethau a gynigir i blant heb eu geni a phlant newydd-anedig. Mae’r awdurdod lleol wedi buddsoddi’n sylweddol er mwyn rhoi dull gweithredu newydd ar waith i helpu plant heb eu geni a phlant newydd-anedig. Mae llwybr integredig bellach ar waith ym mhob rhan o’r gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a’r gwasanaethau ar ffiniau gofal, sy’n canolbwyntio ar feithrin sgiliau a gwydnwch a thrwy hynny leihau risg.**

- Mae cyngor cyfreithiol ar gyfer proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gael yn hawdd yn y pedwar awdurdod lleol. Gwelsom dystiolaeth o ddogfennaeth hefyd fod cyngor cyfreithiol o ansawdd da ar gael yn hawdd, a chadarnhawyd hynny yn ystod cyfweliadau â’r staff. Roedd cofnodion y cyfarfodydd cyfreithiol a welwyd yn gynhwysfawr ac yn nodi trafodaethau a oedd yn aml yn heriol mewn ffordd effeithiol. Yn rhai o’r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, roedd y gwasanaethau cyfreithiol hefyd yn cynnig hyfforddiant arbenigol i staff ar broses y llys gan gynnwys yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac roeddent yn chwarae rhan weithredol wrth sicrhau ansawdd.

## Llinell Ymholi Allweddol 4

**A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?**

- Dywedodd awdurdodau lleol wrthym eu bod yn ymdrechu i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gynnwys yn eu harferion fel mater o drefn. Mae arferion yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan 'brofiad bywyd y plentyn'. Gwelsom enghreifftiau lle mae gwaith sensitif helaeth yn cael ei wneud i gofnodi safbwyntiau'r plentyn. Roedd yr enghreifftiau gorau o hyn yn dangos tystiolaeth o greadigrwydd yn y ffordd yr oedd y gweithwyr cymdeithasol yn cyfathrebu â'r plant, gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol lle y bo'n briodol, i ennyn eu llais unigol a'i adlewyrchu.
- Caiff canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc eu cyflawni'n llwyddiannus pan fo parhad o ran yr ymarferydd sy'n gysylltiedig â'r achos. Mae'r plant yn cael budd o gydberthynas sefydledig â rhywun maent yn ei adnabod ac wedi meithrin cydberthynas ag ef.

**Dangosir yr effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar ganlyniadau i blant yn adborth un rhiant ar faint roedd yn gwerthfawrogi'r amser yr oedd gweithiwr cymdeithasol wedi'i dreulio gyda'i blant yn eu helpu i wneud synnwyr o newidiadau diweddar yn y teulu: *"Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn wych gyda'r plant. Byddai bob amser yn gwneud yr ymweliadau'n hwyliog, a doedd y plant byth yn teimlo bod rhywun yn cadw golwg arnyn nhw. Mae'n broses sy'n canolbwyntio'n llwyr ar y plentyn yn hynny o beth."***

- Fodd bynnag, mewn enghreifftiau eraill, roedd cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau bod dulliau gweithredu sy'n anelu at gofnodi llais y plentyn/person ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y broses gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd gwaith 'diwrnod mewn bywyd' helaeth wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus gyda phlentyn, ond ni chafodd wedyn ei ddadansoddi na'i ymgorffori yn unrhyw asesiad dilynol, mewn adroddiadau amddiffyn plant nac yn y cynllun gofal a welwyd yn ei gofnod gofal cymdeithasol.
- Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth fanwl am safbwynt a 'llais' y plentyn yn gyson, wedi'u hategu gan eu dealltwriaeth fanwl o brofiad bywyd y plentyn. Fodd bynnag, ni chaiff hyn bob amser ei nodi'n ddigon cyson yn y cofnodion gofal cymdeithasol ysgrifenedig. At hynny, gellir colli profiad bywyd plant unigol pan gânt eu cynrychioli fel rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd yn unig, heb roi cyfle i glywed llais y plentyn ar wahân yn unigol.
- Mae sawl awdurdod lleol yn awyddus i bwysleisio eu defnydd o dechnoleg fodern a'u dulliau ar gyfer integreiddio'r dechnoleg honno wrth hyrwyddo llais yr unigolyn ym mhroses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, er enghraifft drwy ddefnyddio'r ap Mind of My Own (MOMO). Gall mentrau diweddar eraill fel 'In Our Shoes' gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc/CAFCASS Cymru fod yn ddefnyddiol hefyd wrth hwyluso hyn.

**Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff llais y plentyn ei ystyried a'i gofnodi fel mater o drefn fel rhan ganolog o'r holl weithgarwch a dogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a phrosesau cynllunio gofal. Pan gaiff hyn ei gyflawni, gall arwain at ffocws gwell ar sut y gall pob plentyn gyflawni ei ganlyniadau llesiant wedi'u teilwra'n unigol. Gallai cynigion eirioli ystyrlon a chynnar helpu i sicrhau bod proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc.**

- Ar y cyfan, ceir cydnabyddiaeth gadarnhaol o'r angen i hyrwyddo ethos hawliau plant, a chaiff y plant gymorth gweithredol i ddeall eu hawliau a'u hawliadau. Cânt eu hannog i fanteisio ar gymorth eiriolaeth drwy asiantaethau a gomisiynir yn annibynnol er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed pan fydd cynlluniau yn cael eu llunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff y rhesymau dros beidio â derbyn y cynigion hyn eu harchwilio na'u cofnodi bob amser.

- Mae uwch-reolwyr ac ymarferwyr yn cydnabod yr angen mewn rhai achosion i hyrwyddo mynediad at wasanaethau eirioli yn gynharach yn ystod y broses, ac i wneud hynny mewn ffordd fwy pendant, yn hytrach na dim ond cofnodi bod y 'cynnig rhagweithiol' wedi cael ei wneud. Mewn achosion eraill, nid yw'n glir pa drefniadau penodol sydd ar waith i helpu plant anabl a phlant eraill â gallu cyfathrebu cyfyngedig i gael gafael ar y mathau arbenigol neu estynedig o gymorth eirioli y gallai fod eu hangen arnynt.

- Ni chaiff gwasanaethau eirioli i rieni eu hystyried ar lefel mor gyffredinol, er bod ymwybyddiaeth o'r angen i gynnig y gwasanaeth gwerthfawr hwn yn tyfu. Clywsom yn uniongyrchol gan un rhiant a oedd yn teimlo ei fod wedi gallu cymryd rhan llawer mwy cyflawn ym mhroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ôl cael cymorth i gael gafael ar gymorth eirioli anffurfiol. I'r gwrthwyneb, gwelsom hefyd riant arall â rhwydweithiau cymorth cyfyngedig ac y nodwyd ei fod yn agored i niwed ei hun, lle nad oedd unrhyw sôn yn y cofnod gofal cymdeithasol fod unrhyw gymorth eirioli wedi cael ei ystyried na'i gynnig.

- Mae'n amlwg bod gan Swyddogion Adolygu Annibynnol rôl amlwg yn goruchwylio prosesau cynllunio gofal a phrosesau cysylltiedig a'u bod yn ymgymryd â hyn yn annibynnol ar y prosesau cynllunio cyfreithiol a phrosesau cysylltiedig yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol o'r cynnydd a'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r rhain, fel sy'n briodol. Pan gaiff y rôl hon ei chyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol, mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn darparu goruchwyliaeth dda drwy gynnal cydberthnasau â phlant a phobl ifanc dros amser, ac yn bwrw ati i ofyn eu barn er mwyn gallu eirioli'n effeithiol drostynt. Gallant hefyd herio'n briodol pan fydd angen ynghylch diffygion wrth gynllunio gofal, a pha mor gyflym y caiff canlyniadau unigol a nodwyd eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a welsom fod hyn yn digwydd.

- Clywsom gan awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru am gysylltiadau proffesiynol effeithiol rhyngddynt, ar lefelau gweithredol a strategol. Mae'r cysylltiadau hyn yn hyrwyddo cyfleoedd gwerthfawr i gynrychioli'r plentyn ar lefel leol ac yn darparu fforymau ar gyfer cyfleoedd i ddysgu a datblygu ar y cyd. Mewn rhai awdurdodau lleol, caiff y rhain eu datblygu ymhellach gan fentrau sy'n cynnwys gwasanaethau cyfreithiol, er enghraifft mewn perthynas â phroses a gynlluniwyd i gyflwyno hyfforddiant pellach mewn ymateb i ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ddiweddar.

- Mae hefyd yn amlwg bod trefniadau ar gyfer hysbysu CAFCASS Cymru yn ystod cam cynnar o'r broses y bydd angen mewnbwn ganddo mewn achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus arfaethedig, fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, wedi bod yn ymarfer safonol mewn sawl ardal ers cryn amser. Roedd ardal arall wedi gwneud gwaith ar y cyd mewn perthynas â gorchmynion goruchwylio, yn dilyn menter gan y bwrdd cyfiawnder teuluol lleol ar yr hyn y mae cynllunio gofal da yn ei olygu.
- Clywsom gan nifer o asiantaethau bod eu bwrdd cyfiawnder teuluol lleol yn darparu fforwm defnyddiol i'r asiantaethau gwahanol dan sylw gydweithio, gan ar yr un pryd hyrwyddo dull gweithredu sy'n seiliedig ar her adeiladol rhwng rhanddeiliaid. Cydnabuwyd hefyd gan awdurdodau lleol bod angen gwneud rhagor o waith i roi eu siarteri 'parch a rennir' ar waith, fel yr argymhellwyd gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus.
- Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel o fewn rhwydwaith eu teulu neu maent mewn lleoliadau addas sy'n diwallu eu hanghenion. Mae dymuniadau a theimladau plant, yn enwedig plant hŷn, yn amlwg yn dylanwadu ar benderfyniadau am ble maent yn byw.
- Fodd bynnag, er gwaethaf gweithgarwch recriwtio, comisiynu a chymorth lleoli parhaus, cydnabyddir bod diffyg amrywiaeth a dewis o leoliadau ar gael i fodloni'r galw presennol.
- O ran y math o leoliad a'u lleoliadau daearyddol, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, ar yr adeg y cafodd achosion eu cychwyn yn gyntaf, bod mwy na hanner y plant naill ai'n byw gyda'u rhieni (yn destun gorchymyn interim, neu heb unrhyw orchymyn) neu mewn lleoliad gyda pherthynas. Yn arwyddocaol, roedd mwyafrif helaeth o'r lleoliadau hyn o fewn awdurdod lleol y plentyn ei hun, ac roedd nifer o leoliadau eraill mewn awdurdodau cyfagos. Dim ond nifer bach a oedd wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, neu mewn achosion eithriadol, y tu allan i Gymru.



# Diolchiadau

Hoffai AGC ddiolch i'r holl blant, pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr a rannodd eu profiadau gyda ni.

Rydym hefyd yn cydnabod parodrwydd ymarferwyr o awdurdodau lleol ac asiantaethau partner, gan gynnwys CAFCASS a'r farnwriaeth, i'n cynorthwyo gyda'r gweithgarwch hwn, ar adeg pan oedd adnoddau o dan bwysau sylweddol.



# Atodiad 1: Methodoleg

Roedd cam un yn cynnwys arolwg cenedlaethol o'r 22 o awdurdodau lleol a roddodd asesiad cryno i ni o'r holl blant a phobl ifanc hynny a ddechreuodd dderbyn gofal ac a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ystod amserlen yr arolwg, sef rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 (ceir manylion am ein canfyddiadau mewn perthynas â hyn yn Atodiad 3).

Fel rhan o'r arolwg hwn, gwahoddwyd awdurdodau lleol hefyd i dynnu sylw at gynnydd diweddar yn eu harferion cyn-achos, ar ôl i'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus gyhoeddi ei adroddiad, gan gynnwys unrhyw arferion gorau neu rwystrau a nodwyd i welliant pellach (ceir manylion am ein canfyddiadau mewn perthynas â'r ail elfen hon o'r arolwg yn Atodiad 4).

Roedd cam dau ein gweithgarwch yn cynnwys gwaith maes mewn pedwar awdurdod lleol:

- Castell-nedd Port Talbot
- Torfaen
- Rhondda Cynon Taf a
- Chonwy.



Gwnaed hyn rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd yn cynnwys dewis nifer bach o gofnodion gofal cymdeithasol ym mhob awdurdod lleol yn seiliedig ar feini prawf a nodwyd ymlaen llaw. Yna, aethom ati i siarad â chynifer o bobl â phosibl a oedd yn gysylltiedig â'r rhain, gan gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, am eu profiadau o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Roedd y cwestiynau allweddol a nodwyd gennym i'w hateb yn adlewyrchu'r cwestiynau a ystyriwyd yn ein hadolygiad yn 2016:

1. **Llesiant: A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?**

Roedd y llinellau ymholi penodol yn cynnwys – Sut mae trefniadau ymarfer presennol mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn sicrhau:

- y nodau cyfochrog: sef llwyddo i atal teuluoedd rhag bod angen iddynt ddod yn rhan o achos llys; neu nodi a oes angen achos llys a gwneud hynny mewn ffordd sy'n golygu y gellir cyflwyno'r achos llys yn effeithiol os bydd ei angen.
- nodi'n glir unrhyw bryderon, y camau a gymerwyd i gefnogi newid, er mwyn adeiladu ar gryfderau teuluoedd a gwerthuso'r cynnydd a wnaed.
- gwneud penderfyniadau trothwy cyson, amserol ar sail gwybodaeth broffesiynol mewn perthynas â rhoi proses cyn-achos ar waith gan osgoi unrhyw oedi diangen.
- disgwyliadau a rennir rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol am eu rôl yng ngham cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- bod achosion gofal yn cael eu cychwyn pan fydd angen er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn a phan gaiff y trothwy cyfreithiol ei fodloni, gan leihau'r defnydd o geisiadau brys

- bod cofnodion cywir ac amserol yn cael eu cadw yn unol â chanllawiau arferion gorau
- bod systemau yn helpu i reoli a monitro amserlen y cynllun asesu a chymorth mewn ffordd agos ac effeithiol, gan gynnwys pwynt ymuno a phwynt gadael yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (gan leihau achosion o oedi i'r plentyn a chofnodi'r dystiolaeth sydd ei hangen os caiff achos llys ei ystyried).

2. **Partneriaeth: A oes trefniadau ar waith i gefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol a phrosesau cynllunio cydweithredol â rhieni/unigolion arwyddocaol eraill am yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys cyfleoedd i newid?**

Roedd y llinellau ymholi penodol yn cynnwys – Sut mae trefniadau ymarfer presennol mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cefnogi:

- yr ymgysylltiad ystyrlon â rhieni ac unigolion perthnasol eraill
- proses ar y cyd ar gyfer nodi a deall y pryderon presennol sy'n arwain at gynllun ymarferol wedi'i gydgynhyrchu sy'n hyrwyddo'r newid angenrheidiol
- rhieni a gofalwyr i gyflawni 'canlyniadau da' tryloyw; gan gynnwys y potensial i atal plant a phobl ifanc rhag bod yn destun achos cyfraith gyhoeddus, mewn ffordd ddiogel. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu am drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, beth mae'r broses yn ei olygu a'r cyfleoedd posibl sydd ar gael – e.e. 'llythyr cyn gweithredu'.

3. **Atal: A yw'r trefniadau cynllunio gofal a chymorth yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?**

Roedd y llinellau ymholi penodol yn cynnwys – Sut mae trefniadau ymarfer presennol mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn sicrhau:

- bod gwaith o gynllunio gofal a chymorth yn amserol, y caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn seiliedig ar ddiogelwch a phrofiadau bywyd y plentyn
- bod gwaith partneriaeth yn effeithiol a bod teuluoedd, gofalwyr a'u plant yn cael help sydd wedi'i gydlynu'n dda ac sy'n gwneud synnwyr iddynt
- bod y cyngor cyfreithiol ar gyfer proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus o ansawdd da a'i fod ar gael yn hawdd ac yn hygyrch
- bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn defnyddio aelodau'r teulu yn gynnar, i roi cymorth ac fel gofalwyr amgen er mwyn galluogi'r plentyn i aros gyda'i deulu. (e.e. genogramau, Cynadleddau Grŵp Teulu)
- bod plant a phobl ifanc yn byw mewn lleoliadau sefydlog.
- bod trefniadau ar waith i sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ddatblygu proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ond mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried mynd i'r llys, ac mai dim ond pan fydd diogelwch a llesiant y plentyn yn gofyn am hynny a bod y trothwy cyfreithiol wedi'i fodloni y caiff achos llys ei gychwyn
- bod cynlluniau cynnar effeithiol ar gyfer babanod newydd-anedig a chymorth i fabanod er mwyn osgoi achos llys/oedi.

4. **Pobl: A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?**

Roedd y llinellau ymholi penodol yn cynnwys: Sut mae trefniadau ymarfer presennol mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn sicrhau:

- bod plant yn cael eu gweld/eu gweld ar eu pennau eu hunain, bod ganddynt lais a bod profiad bywyd y plentyn yn sail i ffordd o feddwl, penderfyniadau a gweithredoedd pawb dan sylw
- bod llais gan blant a phobl ifanc, y gofynnir am eu barn, y gwrandewir ar y farn honno ac y caiff ei chyfleu'n briodol yn y cofnod
- bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn unrhyw asesiadau a chynlluniau, ac y caiff yr asesiadau a'r cynlluniau hyn eu rhannu â nhw fel mater o drefn
- bod y cofnodion yn cynnwys dulliau creadigol, arsylwadau a manylion am ddehongliad y gweithwyr cymdeithasol o wybodaeth sy'n deillio o waith uniongyrchol o'r fath
- bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i feithrin cydberthnasau proffesiynol da â'r sawl sy'n eu helpu, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi ganddynt
- bod rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol a chadeiryddion cynadleddau yn ategu proses gynllunio ragweithiol ac amserol gan hyrwyddo arferion da, er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mwy cyson ac effeithiol sy'n cydnabod llais y plentyn ac anghenion y teulu
- bod gwasanaethau eirioli ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu hyrwyddo a'u hannog yn ôl yr angen.
- bod trefniadau gyda CAFCASS Cymru yn hyrwyddo trefniadau effeithiol iddo gynrychioli'r plentyn (e.e., protocol – sy'n cynnwys ei hysbysu am unrhyw achosion blaenorol, gan gynnwys enw gwarcheidwad a ddyrannwyd yn flaenorol i'r plentyn a chyfreithiwr y plentyn).

## Cwmpas

### Cam un – Arolwg Cenedlaethol

Ein nod oedd cynnal asesiad cryno o'r cyd-destun cenedlaethol drwy arolwg data ar-lein byr i'w gwblhau gan y 22 o awdurdodau lleol. Cafodd yr arolwg ei rannu ar 21 Medi 2022 a'i ddychwelyd gan awdurdodau lleol erbyn 19 Hydref 2022.

Roedd yn cynnwys dwy elfen – gwybodaeth fanwl bellach am broffil y plant a'r bobl ifanc rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 a oedd wedi dechrau derbyn gofal a'r plant a'r bobl ifanc hynny a oedd yn destun proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus/y broses cyn-achos.

Roedd yr ail elfen yn gwahodd awdurdodau lleol i dynnu sylw at gynnydd o ran eu harferion mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw arferion gorau neu rwystrau at welliant a nodwyd.

### Cam dau – Gwaith maes

Rhoddodd y gweithgarwch hwn gyfle i AGC archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac i nodi meysydd posibl i'w gwella.

Cynhaliwyd y gwaith maes mewn pedwar awdurdod lleol a ddewiswyd i adlewyrchu demograffeg amrywiol ledled Cymru: Castell-nedd Port Talbot; Torfaen; Rhondda Cynon Taf a Chonwy. Cynhaliwyd pob un dros dri diwrnod ar 'sail rithwir' rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, ac yna anfonwyd llythyr yn nodi ein canfyddiadau i'r awdurdod lleol a chyhoeddwyd y llythyr hwnnw ar wefan AGC.

Cyn ein gweithgarwch, gofynnwyd am y 'dogfennau craidd' canlynol, os oeddent ar gael:

- y strwythur strategol a gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol i blant
- strategaeth cymorth teuluol, cymorth ataliol a sefydlogrwydd yr awdurdod lleol (neu ddogfen gyfatebol)
- model/dull asesu risg yr awdurdod lleol
- polisi goruchwylio'r awdurdod lleol
- proffil dienw o blant ar y gofrestr amddiffyn plant gan gynnwys am ba hyd y bu'r plentyn ar y gofrestr, y categori cofrestru, oedran a rhywedd
- proffil dienw plant sy'n destun Adran 76 ar hyn o bryd gan gynnwys am ba hyd a'r oedran ar ddyddiad dechrau'r cyfnod o ofal
- proffiliau o'r gweithlu yn ôl timau.

**Dogfennau canllawiau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus y gofynnwyd amdanynt:**

- canllawiau protocol/ymarfer ar gyfer rheoli proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- ffactorau ysgogi a'r broses gwneud penderfyniadau
- cyfarfodydd porth cyfreithiol
- modelau ymarfer sylfaenol.

**Dogfennau'r llys y gofynnwyd amdanynt:**

- protocolau neu gytundebau perthnasol â'r llysoedd, CAFCASS Cymru neu eraill fel sy'n briodol
- gwybodaeth am berfformiad a gweithgarwch sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus/proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mehefin 2022
- y broses olrhain ar gyfer plant a ymunodd â system yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (gwasanaethau plant a gwasanaethau cyfreithiol) ac a adawodd y system ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mehefin 2022
- gwybodaeth sydd ar gael i deuluoedd/plant neu bobl ifanc mewn perthynas â phroses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- llythyr hysbysu enghreifftiol yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- templedi cofnodi a ddefnyddir i roi tystiolaeth i'r Llys

- dogfennau sy'n adlewyrchu newidiadau/datblygiadau ychwanegol sydd wedi codi ers cyhoeddi adroddiad gweithgor yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ym mis Mawrth 2021.

Roedd ein methodoleg yn cynnwys cyflwyniad byr gan yr awdurdodau lleol a ddewiswyd, yn nodi eu model/dull gweithredu/pwyntiau penderfynu presennol a ddefnyddir gan y gwasanaethau plant i reoli eu trefniadau cyn-achos ar gyfer yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Edrychodd yr arolygwyr ar hyd at chwe chofnod gofal cymdeithasol electronig unigol ym mhob un o'r awdurdodau lleol hyn. Cafodd y rhain eu dewis ymlaen llaw gan AGC a'u categoreiddio yn erbyn y meini prawf penodol canlynol:

- **Categori 1**
  Achosion lle roedd y plentyn wedi bod yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus rhwng y dyddiadau hynny.
- **Categori 2**
  Achosion lle roedd y plentyn wedi bod yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac nad oedd wedi mynd yn rhan o achos llys cyfreithiol ond ei fod wedi aros gyda'i rieni ac na pharhawyd â'r achos.
- **Categori 3**
  Achosion lle roedd y plentyn wedi bod yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn flaenorol (h.y., dau gyfnod ar wahân neu fwy).
- **Categori 4**
  Achosion lle NAD oedd y plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant cyn dechrau derbyn gofal.
- **Categori 5**
  Achosion lle roedd y plentyn wedi bod yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn dechrau derbyn gofal o dan Adran 76.

### Methodoleg adolygu ffeiliau achos

Ym mhob awdurdod lleol, cafodd tair o'r ffeiliau electronig a ddewiswyd eu hadolygu drwy gyfweliadau olrhain achosion 'un asiantaeth' yn cynnwys:

- y gweithiwr cymdeithasol perthnasol
- rheolwr tîm
- cadeirydd y gynhadledd achos/Swyddog Adolygu Annibynnol a
- chynrychiolydd cyfreithiol yr awdurdod lleol ar gyfer yr achos.

Cafodd un o'r ffeiliau electronig a ddewiswyd ei hadolygu gan y tîm gwaith maes drwy gyfarfod adolygu achos amlasiantaeth. Roedd y cyfranogwyr a wahoddwyd gan yr awdurdod lleol yn cynnwys y canlynol:

- gweithiwr cymdeithasol, rheolwr tîm a rheolwr gweithredol
- cadeirydd y gynhadledd achos/Swyddog Adolygu Annibynnol
- cynrychiolwyr gwasanaethau cyfreithiol
- aelodau'r grŵp craidd (nid y plentyn na'r teulu) os yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- cynrychiolwyr o'r sector addysg ac iechyd os nad ydynt wedi'u cynnwys uchod
- gofalwr/gweithiwr preswyl
- cadeirydd y gynhadledd grŵp teulu.



### Cyfweliadau

Mae safbwyntiau a phrofiadau'r unigolion hynny sy'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn rhan greiddiol o broses adolygu AGC. Gofynnwyd i'r awdurdod lleol sicrhau cytundeb, lle y bo'n bosibl/briodol, gan y plentyn/person ifanc a/neu ei deulu i siarad â'r arolygwyr am ei brofiad o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Rhoddodd AGC lythyr i'r awdurdodau lleol iddynt ei anfon at yr unigolion hynny a oedd wedi cytuno i siarad â ni.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd lle roedd yn bosibl â phartïon allweddol eraill gan gynnwys:

- cynrychiolwyr gwasanaethau cyfreithiol
- pennaeth y gwasanaethau plant
- grŵp ffocws o brif swyddogion sy'n allweddol i'r broses o wneud penderfyniadau
- cynrychiolwyr rhanbarthol o CAFCASS Cymru.

Siaradwyd â chynrychiolwyr barnwyr teulu dynodedig o bob cwr o Gymru hefyd ar ôl cwblhau ein gweithgarwch gwaith maes.

# Atodiad 2: Canfyddiadau'r arolwg – meintiol

## Canfyddiadau cenedlaethol – ymatebion yr awdurdodau lleol i gwestiynau'r arolwg

### Rhan 1. Adborth data ar broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Casglwyd y data a ddefnyddiwyd i lunio'r siartiau hyn o arolwg cenedlaethol o'r 22 awdurdod lleol. Nid yw'r data wedi'u dilysu a gellir ond dibynnu arnynt i roi ciplun cyffredinol o'r plant a'r bobl ifanc a ddechreuodd dderbyn gofal a'r plant hynny a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ledled Cymru.

Darparodd yr awdurdodau lleol wybodaeth am y trefniadau ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 – y cyfeirir ato yn yr adran hon fel amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Er y cafodd rhai cymaryddion â'r data a gasglwyd yn adroddiad 2016 eu cynnwys, rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol gwneud cymhariaeth uniongyrchol.

Caiff y cyd-destun heriol, sy'n cynnwys y galw uwch yn sgil COVID-19, ei gydnabod.

Fel rhan o'r adolygiad cenedlaethol, gofynnwyd i awdurdodau ymateb i gyfres o gwestiynau arolwg gyda'r nod o lunio proffil o broses cyn-achos a gweithgarwch Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ledled Cymru. Yn wahanol i adroddiad 2016, roedd yn gadarnhaol bod pob awdurdod wedi gallu tynnu'r rhan fwyaf o'r data y gofynnwyd amdanynt o'u systemau electronig.

# Amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

### Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth

## 1. Plant sy'n Derbyn Gofal

Ar 31 Mawrth 2022, nododd yr awdurdodau lleol fod **7,042 o blant** yn cael eu hystyried yn blant sy'n derbyn gofal. O'r ffigur hwn, roedd **1,716** ohonynt wedi dechrau derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, sy'n cynrychioli tua chwarter **(24%)** o gyfanswm y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. *(O gymharu ag adolygiad blaenorol yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn 2016, dechreuodd **373 yn llai o blant** dderbyn gofal yn ystod amserlen bresennol yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Yn 2016, dechreuodd **2,089** o blant dderbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015).*

**7,042** Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2022

**Nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022**

**1,716**
Cyfanswm y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 01/04/2021–31/03/2022.



**24%**
Plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus



**Dywedodd awdurdodau lleol wrthym:**


- roeddent yn cofnodi ac yn dadansoddi data fel mater o drefn er mwyn deall eu poblogaeth o blant sy'n derbyn gofal yn well
- roeddent yn priodoli unrhyw ostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal i'r canlynol:
  - ffocws strategol gwell ar leihau'r boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal yn ddiogel
  - effaith eu trefniadau ataliol cynnar o ran helpu plant i aros gyda'u teuluoedd
- priodolwyd cynnydd yn y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal i'r canlynol:
  - effaith gronnol COVID-19, yn enwedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â llesiant meddyliol y glasoed a rhieni
  - cynnydd mewn teuluoedd yn chwalu i bobl ifanc hŷn

Amlygodd y data a ddarparwyd amrywiadau rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â phroffil oedran y plant sy'n derbyn gofal ganddynt.

- Nododd rhai awdurdodau lleol gynnydd diweddar yn nifer y babanod a oedd yn dod yn rhan o'r system ofal, yn dilyn asesiadau cyn-geni, ac roedd rhai ohonynt yn cynnwys teuluoedd lle roedd plant blaenorol eisoes wedi'u tynnu oddi wrthynt
- Tynnodd sawl awdurdod lleol sylw at effaith Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches a'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar niferoedd cyffredinol y plant hŷn sy'n dod yn rhan o'r system ofal.

**Proffil oedran:** Roedd y nifer uchaf o blant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn parhau i fod yn yr ystod oedran 10 a throsodd, fel yr adlewyrchwyd yng nghanfyddiadau ein hadolygiad o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn 2016 (ffigur 1a). Mae'n debygol na fyddai pob un o'r rhain, yn enwedig y grŵp oedran hŷn, yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

**Ffigur 1a:** Nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ôl proffil oedran




## Proffil plant sy'n derbyn gofal: **Plant ag anabledd**

**3% (58 o blant)**

Plant sy'n derbyn gofal a ddynodwyd fel plant ag anabledd



Ar lefel awdurdod lleol, roedd nifer y plant anabl sy'n derbyn gofal yn isel *(gan adlewyrchu ein canfyddiadau yn 2016)*. Nododd sawl awdurdod na ddechreuodd unrhyw blant anabl dderbyn gofal yn ystod yr amserlen berthnasol.

## Defnyddio gorchmynion amddiffyn brys a grymoedd diogelu'r heddlu yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

(Noder: nid oedd plant a oedd yn destun gorchymyn amddiffyn brys neu rymoedd diogelu'r heddlu wedi'u cynnwys yn y sampl o achosion a adolygwyd fel rhan o'r gwaith maes).


**Roedd cyfanswm o 186 o blant yn destun gorchmynion amddiffyn brys neu rymoedd diogelu'r heddlu yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**, gostyngiad o gymharu â'r 202 o blant a nodwyd yn adolygiad 2016 o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Er bod y niferoedd yn gymharol isel, roeddent yn cynnwys rhai amrywiadau amlwg rhwng awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio grymoedd diogelu'r heddlu.

- Roedd **17 o blant** yn destun Gorchymyn Amddiffyn Brys (**9%**).
- Roedd **169 o blant** yn destun Grymoedd Diogelu'r Heddlu (**91%**).

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Gwnaethant ddisgrifio'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn Brys fel mesur eithriadol.
- Dywedwyd nad oedd grymoedd diogelu'r heddlu yn cael eu defnyddio'n fynych, ond bod yn rhaid eu defnyddio mewn ymateb i ddigwyddiadau megis:
  - anaf nad yw'n ddamweiniol
  - dirywiad cyflym yn iechyd meddwl rhieni neu bobl ifanc
  - dwysâd yn ymddygiad peryglus pobl ifanc.
- Dywedwyd bod yr amrywiad yn nifer y plant sy'n destun grymoedd diogelu'r heddlu rhwng awdurdodau wedi'i chwyddo gan nifer y grwpiau o frodyr a chwiorydd o dan sylw.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr holl blant a oedd yn destun grymoedd diogelu'r heddlu wedi parhau i fod yn blant sy'n derbyn gofal.

**Figure 1b: Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ôl proffil oedran a'r rhai a oedd yn destun gorchymyn amddiffyn brys/grymoedd diogelu'r heddlu**



## 2. Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant

O blith y 1,716 o blant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, roedd 876 (51%) o blant wedi’u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y tair blynedd diwethaf *(mae’r ffigur hwn yn is na’r 1,113 o blant y nodwyd eu bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar gyfer adolygiad Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2016).*

**51%**

Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a fu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y 3 blynedd diwethaf



**3%**


Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y 3 blynedd diwethaf ac sydd wedi bod arni fwy nag unwaith



O’r rhain:

- roedd **3%** wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar fwy nag un achlysur
- arhosodd **31%** ar y gofrestr hyd at yr adolygiad cyntaf (3 mis)
- roedd **57%** ar y gofrestr am o leiaf 6 mis
- roedd ***25%*** ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am flwyddyn o leiaf

**Ffigur 2a: Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a fu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y 3 blynedd diwethaf yn ôl hyd**



**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Roeddent yn hyderus ynghylch eu trefniadau ar gyfer cynadleddau achos amddiffyn plant.
- Disgrifiwyd cynadleddau amddiffyn plant fel 'fforwm amlasiantaethol cryf, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni, er mwyn lleihau'r risg o niwed sylweddol a hybu llesiant y plentyn'.
- Roedd ailgofrestriadau'n isel ar y cyfan ac yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y rhan fwyaf o awdurdodau.
- Nodwyd bod ailgofrestriadau'n deillio'n bennaf o faterion newydd neu faterion sy'n dod i'r amlwg, effaith grwpiau o frodyr a chwiorydd, newidiadau yn iechyd meddwl rhieni neu bryderon yn deillio o gydberthnasau newydd rhwng oedolion yn y cartref.
- Disgrifiwyd bod y rhyngwyneb rhwng trefniadau cofrestru amddiffyn plant a'r defnydd o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn un a oedd wedi'i sefydlu ac yn aeddfedu. Nodwyd bod penderfyniadau cyfochrog rhwng y ddwy set o drefniadau yn dystiolaeth o'r ymrwymiad cryf i atal a'r ymdrechion a wneir i gefnogi teuluoedd i wneud newidiadau amserol a chynaliadwy.
- Roedd yr awdurdodau lleol yn hyderus bod plant a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a disgrifiwyd pwyntiau sbardun sefydledig ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn cychwyn trafodaethau porth cyfreithiol.
- Nododd yr awdurdodau lleol fod plant nad oeddent yn destun cofrestriad amddiffyn plant cyn achos, yn aml yn cynnwys y rhai a oedd wedi symud ymlaen yn uniongyrchol i achos, a hynny'n aml oherwydd digwyddiad penodol sydyn neu adeg eu genedigaeth yn dilyn asesiad cyn-geni, er enghraifft.

## 3. Plant a ddechreuodd dderbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac sy’n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

**42%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus **cyn** dechrau derbyn gofal




**8%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus **ar ôl** dechrau derbyn gofal



O blith y **1,716 children** o blant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, roedd cyfanswm o **863 (50%)** ohonynt yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac nid oedd **848** ohonynt yn destun y broses honno[1].

- Roedd **42%** yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn dechrau derbyn gofal. *(O gymharu â’r 40% o blant a nodwyd yn adolygiad Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2016).*
- Roedd **8%** yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Roedd **50%** o blant sy’n derbyn gofal nad oeddent yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

**Ffigur 3a: Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn ac ar ôl dechrau derbyn gofal, yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**




1. Mae cyfanswm y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn yr adran hon yn nodi 1,711, am fod tri awdurdod lleol wedi adrodd nifer rhy uchel neu nifer rhy isel o blant.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Roedd y nifer cymharol uchel o blant a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn dechrau derbyn gofal yn cyd-fynd â disgwyliadau'r canllawiau ac yn adlewyrchu eu strategaethau atal sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n anelu at atal teuluoedd rhag dod yn destun ymyriad statudol pellach a chael eu huwchgyfeirio i'r llys.
- Roedd trefniadau cadarn o ran cynllunio cyfreithiol a goruchwyliaeth gan reolwyr yn cefnogi'r canlynol:
  - blaenlwytho proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
  - tynnu allan o achosion yn gynnar neu symud ymlaen i achosion
  - cloi achosion yn amserol o fewn yr amserlenni.
- Ystyriwyd bod y nifer cymharol isel o blant a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ôl dechrau derbyn gofal yn adlewyrchu'r canllawiau.
- Roedd cychwyn proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn yr amgylchiadau hyn yn dangos bod cynllun gofal y plentyn yn cael ei fonitro'n effeithiol ac yn dangos ymatebolrwydd i newidiadau yn yr anghenion neu'r risgiau a nodwyd.
- Cafodd y defnydd o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar y cyd ag Adran 76 ei nodi hefyd fel ffordd o gefnogi teuluoedd i gael cyngor cyfreithiol
- Dywedwyd bod nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn:
  - deillio o'r ffaith bod rhai plant yn cael eu huwchgyfeirio'n syth i'r llys i sicrhau eu trefniadau diogelu ar unwaith neu i ganfod ffeithiau
  - tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, gan gynnwys defnyddio Adran 76 fel mesur ataliol
  - cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu gwneud yn destun adran 76 gyda chydsyniad gweithredol eu rhieni/deiliad cyfrifoldeb rhiant neu eu cefnogi i fyw yn annibynnol
  - cynnwys nifer y Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches neu'r bobl ifanc sy'n destun y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.

## 4. Statws cyfreithiol plant a ddechreuodd dderbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

Nodwyd statws cyfreithiol y **1,716 o blant** ar yr adeg y gwnaethant ddechrau derbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 fel a ganlyn[2].


**57%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun Adran 76



**33%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun Gorchymyn Gofal Interim




**3%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun Cais Brys



**6%**
Plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a oedd yn destun 'Arall'




**Ffigur 4a: Statws cyfreithiol y plant hynny ar yr adeg y gwanethant ddechrau derbyn gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022**




2. Mae cyfanswm y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer yr adran hon yn nodi 1,710, gan nad adroddwyd am chwe phlentyn neu na chawsant eu gosod mewn categori statws cyfreithiol gan un awdurdod lleol.

O blith y **1,716 o blant** a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, nodwyd eu statws cyfreithiol cyfredol ar 1 Ebrill 2022 fel a ganlyn[3].

**Ffigur 4b: Statws cyfreithiol cyfredol, ar 1 Ebrill 2022, y plant hynny a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**




3. Mae cyfanswm y plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer yr adran hon yn nodi 1,713, gan nad adroddwyd am dri phlentyn neu na chawsant eu gosod mewn categori statws cyfreithiol gan un awdurdod lleol.


## 5. Plant a oedd yn derbyn gofal a oedd yn destun Adran 76 a aeth ymlaen i fod yn destun achosion cyfreithiol a/neu orchymyn yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

O blith y **982 o blant** a oedd yn derbyn gofal a oedd yn destun Adran 76 yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, aeth **363 o blant (37%)** ymlaen i achosion cyfreithiol a/neu orchymyn.

**37%** Plant a oedd yn derbyn gofal a oedd yn destun Adran 76 a aeth ymlaen i achosion cyfreithiol a/neu orchymyn.



**Ffigur 5a: Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a oedd yn destun Adran 76 a aeth ymlaen i achosion cyfreithiol a/neu orchymyn**



### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

**Statws cyfreithiol cychwynnol**

- Ystyrir bod y defnydd o orchmynion gofal interim ar yr adeg y dechreuodd y plant dderbyn gofal yn adlewyrchu gwaith partneriaeth â theuluoedd ac yn gymesur
- Mae'r defnydd o Adran 76 ar adeg lletya yn sicrhau bod plant yn byw, drwy gytundeb, mewn amgylchedd diogel, wrth i asesiadau ac ymyriadau gael eu cyflawni gyda theuluoedd er mwyn cadarnhau a oes modd eu hailuno yn ddiogel.
- Gwnaed gwaith i gryfhau gallu rhieni a deiliaid cyfrifoldeb rhiant i wneud penderfyniadau ar sail cydsyniad gwybodus mewn perthynas ag Adran 76
- Dywedwyd bod cynnydd yn nifer y bobl ifanc hŷn a oedd wedi dechrau derbyn gofal ar ôl i'w teulu chwalu ac yn sgil materion llesiant meddyliol yn ystod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y defnydd o Adran 76.

**Newid mewn statws cyfreithiol**


- Roedd awdurdodau lleol yn hyderus yn eu hystod o drefniadau ar gyfer goruchwylio gwaith cynllunio a rheoli, gan gynnwys cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol cadarn a systemau monitro Adran 76.
- Nodwyd bod nifer y plant a 'orffennodd dderbyn gofal' yn dystiolaeth bod y defnydd o Adran 76, ochr yn ochr ag ymyriadau seiliedig ar gryfderau, yn helpu i sicrhau bod plentyn yn dychwelyd adref mewn ffordd amserol, wedi'i chynllunio.
- Dywedwyd bod newidiadau mewn statws cyfreithiol yn dangos parodrwydd i weithredu er budd pennaf y plentyn, pan gaiff trothwyon niwed sylweddol eu cyrraedd a lle y mae angen rhannu cyfrifoldeb rhiant er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn.
- Caiff gwaith cynllunio gofal ei lywio gan egwyddor y 'drefn leiaf' a chaiff pob opsiwn ei archwilio mewn modd cadarnhaol, er enghraifft y defnydd o Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a gorchmynion goruchwylio.
- Roedd yr awdurdodau lleol yn croesawu'r ailwerthusiad parhaus o'r defnydd o Adran 76 a gorchmynion goruchwylio.

## 6. Cyfanswm y plant a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 (yn ôl statws derbyn gofal a'r Gofrestr Amddiffyn Plant)

Roedd cyfanswm o **1,461 o blant** yn destun proses cyn-achos yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022). O'r rhain:

- roedd **614 (42%)** yn blant sy'n derbyn gofal
- nid oedd **847 (58%)** yn blant sy'n derbyn gofal
- o'r cyfanswm o **1,461 o blant** a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, roedd **1,050** o'r plant hyn **(72%)** hefyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**Ffigur 6a: Nifer y plant sy'n destun y broses cyn-achos yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ôl statws derbyn gofal ac amddiffyn plant**



## 7. Cyfanswm y plant a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, na ddaethant yn rhan o achos cyfreithiol

O'r cyfanswm o **1,461 o blant** a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:


- **NI** wnaeth **734** o blant **ddod** yn rhan o achosion cyfreithiol.

Mae'r data hyn yn dangos y gall y broses cyn-achos fod yn effeithiol wrth leihau'r angen i wneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio.

O'r rhain:

- roedd **23% (166)** yn blant sy'n derbyn gofal
- nid oedd **77% (568)** yn blant sy'n derbyn gofal *(O gymharu â 343 o blant a nodwyd yn adolygiad Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2016, ond dylid nodi nad oedd pob awdurdodau yn gallu cofnodi'r data hyn)*
- roedd enwau **75% (554)** o blant hefyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

**Ffigur 7a: Nifer y plant a oedd yn destun y broses cyn-achos yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ôl statws derbyn gofal na ddaethant yn rhan o achos cyfreithiol**




**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Mae uchelgais yr ymarferwyr yn cyd-fynd â'r negeseuon allweddol yn adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus.
- Maent yn rhoi'r gorau i broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gan gynnwys amgylchiadau lle caiff y trothwy cyfreithiol ei fodloni. Fodd bynnag, caiff cynaliadwyedd y gwelliannau a nodir ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae plant nad ydynt yn dod yn rhan o achos cyfreithiol neu'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi fel mater o drefn ar ôl camu i lawr o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, trwy gynllun amddiffyn plant neu gynllun gofal a chymorth.

## 8. Plant a oedd wedi bod trwy broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 a oedd wedi bod yn destun proses cyn-achos yn flaenorol o fewn y 3 blynedd diwethaf

O’r cyfanswm o **1,461 o blant** a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus:

**99 o blant (7%)**
wedi bod yn destun y broses yn flaenorol o fewn y 3 blynedd diwethaf



## 9. Plant a oedd yn destun cais brys yn hytrach na chais cynlluniedig i’r llys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

**212 o blant (15%)**
yn destun cais brys yn hytrach na chais cynlluniedig i’r llys yn ystod y cyfnod hwn

**Dywedodd awdurdodau lleol wrthym**

- Roedd y niferoedd plant uchod yn cynnwys sawl grŵp o frodyr a chwiorydd.

**Defnyddio proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn fynych**

- Disgrifiwyd y rhain fel rhywbeth sy’n digwydd yn anaml ac roedd y rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol yn monitro’r trefniadau hyn
- Roedd yr amgylchiadau a arweiniodd at ailgynnal proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys plant ychwanegol/babanod newydd-anedig yn y teulu, dwysâd yn ymddygiadau peryglus pobl ifanc a diffyg gwelliant cynaliadwy y tu allan i’r broses cyn-achos.

**Defnydd o geisiadau brys**

- Cafodd hyn ei ddisgrifio fel cymharol isel a dywedwyd ei fod yn cael ei fonitro.
- Nid oedd y term ‘brys’ o reidrwydd yn dynodi diffyg cynllunio gan fod y ceisiadau hynny’n aml yn ymwneud â’r canlynol:
  - babanod newydd-anedig (a oedd yn destun cynllunio ond y cafodd papurau llys eu cyhoeddi adeg yr enedigaeth)
  - achosion lle roedd gwrthwynebiad i dynnu unigolyn allan o ofal Adran 76, a arweiniodd at gais i’r llys fel rhan o waith cynllunio wrth gefn
  - roedd ceisiadau brys, gan gynnwys y rhai a wnaed tra bod unigolyn yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, yn ymwneud yn aml ag un digwyddiad fel anaf nad oedd yn ddamweiniol, rhwydweithiau diogelwch teuluol yn chwalu, iechyd meddwl rhieni yn gwaethygu, camddefnyddio sylweddau neu gam-drin domestig neu lle roedd diffyg cydweithredu yn golygu bod angen ymateb ar unwaith.

## 10. Lleoliadau: Llety plant a oedd yn destun achosion gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, ar yr adeg y cafodd yr achosion eu cychwyn yn gyntaf

Nododd yr awdurdodau lleol fod cyfanswm o **1,222 o blant** yn destun achosion gofal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

O'r rhain:


- roedd **216 (18%)** yn byw gyda rhieni yn ystod yr achosion heb unrhyw orchymyn
- roedd **132 (11%)** wedi'u lleoli gyda rhieni o dan orchymyn interim
- roedd **325 (27%)** wedi'u lleoli mewn gofal gyda pherthynas
- roedd **331 (27%)** yn destun trefniadau gofal maeth gan yr awdurdod lleol
- roedd **129 (11%)** yn destun trefniadau gofal maeth annibynnol
- roedd **51 (4%)** wedi'u lleoli mewn gofal preswyl
- roedd **38 (3%)** wedi'u lletya fel 'arall' (gan gynnwys byw yn annibynnol, babanod newydd-anedig mewn ysbytai, lleoliadau rhiant a phlentyn preswyl, lleoliadau anghofrestredig).

O'r **1,222 o blant** a oedd yn destun achosion gofal yn ystod yr amserlen hon:

- roedd **979 o blant (80%)** wedi'u lletya yn eu hawdurdod lleol cartref
- roedd **148 o blant (12%)** wedi'u lletya mewn awdurdod cyfagos
- roedd **49 (4%)** wedi'u lletya rywle arall yng Nghymru
- roedd **46 (4%)** wedi'u lletya y tu allan i Gymru*.

*O blith y plant a gafodd eu lletya y tu allan i Gymru, roedd y rhan fwyaf mewn gofal preswyl. Roedd nifer o'r plant a gafodd eu lleoli y tu allan i Gymru yn cael gofal gan berthynas ac felly roeddent o fewn eu teulu genedigol. Roedd sawl un mewn lleoliadau a nodwyd fel rhai 'arall' gan gynnwys byw yn annibynnol, babanod newydd-anedig mewn ysbytai, lleoliadau rhiant a phlentyn preswyl a lleoliadau anghofrestredig).

### Ffigur 10a: Nifer y plant a oedd yn destun achosion gofal yn ystod amserlen yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, sy'n cael eu lletya fel a ganlyn:



**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym:**

- er bod achosion wedi cael eu cychwyn, maent yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r teulu
- gwneir pob ymdrech i gadw'r plentyn gyda'r rhieni neu mewn lleoliadau gyda pherthynas lle mae'n ddiogel gwneud hynny
- mae unigrywiaeth ddiwylliannol a theuluol y plentyn yn flaenoriaeth a chaiff plant eu lleoli yn eu hawdurdod cartref cyn belled â phosibl.


## 11. Plant a oedd yn destun gorchymyn gofal terfynol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn ôl math o leoliad

Gwnaed **1,151 o blant** yn destun gorchmynion gofal terfynol yn ystod y cyfnod.

O'r rhain:

- roedd **176 (15%)** wedi'u lleoli gyda rhieni
- roedd **220 (19%)** wedi'u lleoli mewn gofal gyda pherthynas
- roedd **445 (39%)** yn destun trefniadau gofal maeth gan yr awdurdod lleol
- roedd **159 (14%)** yn destun trefniadau gofal maeth annibynnol
- roedd **85 (7%)** wedi'u lleoli i gael eu mabwysiadu
- roedd **55 (5%)** wedi'u lleoli mewn gofal preswyl
- roedd **11 (1%)** wedi'u lleoli o dan 'arall'.

### Ffigur 11a: Nifer y plant a oedd yn destun gorchymyn gofal terfynol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn ôl math o leoliad a lleoliad daearyddol




O'r **1,151 o blant** sy'n destun gorchymyn gofal terfynol:

- roedd **875 o blant (76%)** yn cael eu lletya yn eu hawdurdod lleol cartref
- roedd **158 o blant (14%)** yn cael eu lletya o fewn awdurdod lleol cyfagos
- roedd **65 o blant (5%)** yn cael eu lletya rywle arall yng Nghymru
- roedd **53 o blant (5%)** yn cael eu lletya y tu allan i Gymru.

## Ansawdd y Data

Caiff y data yn yr adroddiad hwn eu defnyddio i fonitro'r defnydd a wneir o brosesau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol i AGC, ond ni chânt eu dilysu.

Lle mae'r gwerthoedd wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad neu mewn ffigur, ynghyd â'u cyfanswm, mae'n bosibl y bydd gwerthoedd y canrannau ychydig yn wahanol am eu bod wedi'u talgrynnu.

# Atodiad 3: Canfyddiadau'r arolwg – ansoddol

## Canfyddiadau'r arolwg cenedlaethol – hunanasesiadau awdurdodau lleol

### Cefndir

Gofynnwyd i'r holl adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yng Nghymru gwblhau hunanasesiad i ystyried eu cynnydd wrth roi'r canllawiau arferion gorau sy'n rhan o'r adroddiad a luniwyd yn 2021 ar yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar waith, mewn perthynas â'u gwaith gyda theuluoedd cyn achosion llys.

*'Prif nod y canllawiau arferion gorau ar waith cyn y llys gyda phlant a theuluoedd yw rhannu dysgu ac adnoddau ymarferol i gefnogi ymarferwyr mewn awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau cyson, amserol a chytbwys mewn modd hyderus ynghylch cychwyn y broses cyn-achos. Mae'r canllawiau yn ceisio annog arferion hyderus.'*

### Hunanwerthuso

Er mwyn cynnig cipolwg cychwynnol, gofynnodd yr arolwg i'r gwasanaethau plant ddarparu'r canlynol:

**gwerthusiad cryno o'u prosesau cyn-achos, sy'n dangos enghreifftiau o'r arferion gorau ac unrhyw heriau.**

### Trosolwg

- Ymatebodd pob un o'r 22 o wasanaethau plant awdurdodau lleol i'r hunanasesiad.
- Roedd angen rhagor o waith gyda'r bwrdd cyfiawnder teuluol lleol i ddatblygu siarter parch a rennir ac i roi'r siarter honno ar waith ar sail yr arferion gorau.
- Nodwyd yn glir fod trefniadau i weithio mewn partneriaeth gydweithredol â theuluoedd yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau amserol ac effeithiol fel rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- Nododd pob un bwysigrwydd sicrhau diogelwch y plentyn, ond gan ar yr un pryd weithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o achos llys lle y bo'n bosibl.
- Roedd pawb yn hyderus bod eu trefniadau gweithredol cyn-achos yn bodloni disgwyliadau'r canllawiau a nodwyd enghreifftiau o gynnydd calonogol mewn perthynas â rhoi'r argymhellion arferion gorau ar waith.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Eu bod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gofynion y canllawiau cyn-achos.
- Rhoddwyd trefniadau uwch-reoli a threfniadau porth cyfreithiol cadarn ar waith er mwyn helpu i oruchwylio proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- Disgrifiwyd llais y plentyn fel blaenoriaeth gadarn, a nodwyd bod gwaith creadigol a sensitif yn cael ei wneud fel mater o drefn i gael gwybod barn y plentyn.
- Nodwyd mecanweithiau gan gynnwys systemau sicrhau ansawdd ychwanegol fel rhan annatod o'r broses o gefnogi penderfyniadau proffesiynol cyson.
- Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod canfyddiadau canllaw arferion gorau 2021 yn atgyfnerthu'r modelau ymarfer a oedd ar waith ganddynt eisoes a'u bod yn hawdd eu cynnwys fel rhan o'u gweithdrefnau.
- Roedd arferion yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan 'brofiad bywyd y plentyn' gan gynnwys dealltwriaeth broffesiynol gyffredin o ystyr hynny.
- Disgrifiwyd modelau ymarfer gwaith cymdeithasol presennol fel rhai sy'n hyrwyddo gwaith sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gefnogi penderfyniadau ac ymyriadau amserol a chymesur.

## Canllawiau Arferion a phrotocolau

Roedd awdurdodau lleol yn hyderus bod y canllawiau arferion a'r protocolau a oedd ar waith ganddynt yn cydymffurfio.

- Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg fod unrhyw newidiadau a wnaed i'r disgwyliadau o ran arferion wedi cael eu hategu gan hyfforddiant i ymarferwyr.
- Nododd rhai ohonynt fod eu gweithdrefnau eisoes yn adlewyrchu canllawiau arferion gorau 2021, ond roedd eraill wedi diweddaru eu trefniadau neu wrthi'n gwneud hynny.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

Roedd gwaith wedi'i wneud i ystyried a lledaenu canllawiau arferion gorau 2021. Roedd yr amrywiaeth o waith yn cynnwys y canlynol:

- diweddaru'r canllawiau ar y broses cyn-achos, gwneud cais i'r llysoedd, rheoli achosion, Adran 76 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwarcheidiaeth arbennig;
- adolygu'r trefniadau cyngor cyfreithiol a'r cyfarwyddebau arferion er mwyn atgyfnerthu a chefnogi penderfyniadau proffesiynol amserol;
- gwell trefniadau ar gyfer safoni templedi ar draws prosesau er mwyn cofnodi gwybodaeth berthnasol yn well a chefnogi dadansoddiadau yn seiliedig ar gryfderau;
- diwygio siartiau llif arferion, gan gynnwys babanod cyn adeg eu geni a babanod newydd-anedig, gan anelu at atgyfnerthu'r cysylltiadau â gwaith atal cynnar gyda theuluoedd a rhoi mwy o bwyslais ar ddisgwyliadau'r canllawiau.

### Hyfforddi a mecanweithiau sicrhau ansawdd

Er bod offer arferion wedi cael eu diweddaru i ategu'r canllawiau arferion gorau, cydnabuwyd bod angen hyfforddiant er mwyn iddynt hyrwyddo arferion cyson. Roedd yr enghreifftiau o hyfforddiant yn cynnwys y canlynol:

- hyfforddiant i ymarferwyr wedi'i ddarparu gan adrannau cyfreithiol neu ar y cyd ag adrannau cyfreithiol
- gweithdai i dimau penodol yn ogystal â gweithdai lleol a rhanbarthol ar y canllawiau arferion gorau a'r offer newydd.

## Adborth mewn perthynas â'r cynnydd yn erbyn cwestiynau penodol yn yr arolwg

**Cwestiwn 1:** **A yw'r awdurdod lleol a phartneriaid y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol wedi mabwysiadu'r canllawiau arferion gorau ar waith cyn y llys, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021?**

Cadarnhaodd 95% o'r awdurdodau eu bod nhw a'u partneriaid ar y bwrdd cyfiawnder teuluol wedi mabwysiadu'r canllawiau arferion gorau, neu eu bod wrthi'n eu mabwysiadu.

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Nodwyd bod diffyg cyllid gweithredu penodol wedi effeithio ar allu awdurdodau i gyflwyno rhywfaint o'r hyfforddiant rhanbarthol mewn perthynas ag adroddiad 2021 a'r canllawiau arferion dilynol, ond roedd camau yn cael eu cymryd i ymdrin â hynny.
- Roeddent wedi sicrhau eu hunain fod eu mecanweithiau gweithredol eisoes yn bodloni gofynion arferion gorau neu roeddent bellach wedi mabwysiadu'r offer arferion gorau yn y canllawiau neu wrthi'n eu treialu.
- Roeddent yn croesawu adroddiad 2021 a'r canllawiau arferion gorau ategol ac o'r farn bod y bwriad a ddatganwyd yn y canllawiau yn rhan annatod o'u gwaith h.y. 'to improve the ability of social workers, senior managers, children's guardians, the legal professions and the judiciary to promote the welfare and protection of children by working in partnership with families to achieve the best outcomes in a fair and timely manner'.

**Cwestiwn 2:** **A yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r offer arferion gorau ar waith cyn y llys a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, gan gynnwys yr Offeryn Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol (SWET) diwygiedig?**

**a. Offeryn Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol (SWET) diwygiedig**

Cadarnhaodd 100% o'r awdurdodau eu bod wedi mabwysiadu'r offeryn tystiolaeth gwaith cymdeithasol diwygiedig.

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Er bod y SWET diwygiedig, gan gynnwys ar gyfer ceisiadau brys, wedi cael ei roi ar waith, mae angen gwaith parhaus i wneud yn siŵr y caiff y fformat ei ddefnyddio er mwyn sicrhau arferion cyson.
- Roedd SWET yn offeryn gwerthfawr gan ei fod yn sicrhau tryloywder o fewn prosesau cyn-achos ac yn helpu i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng arferion a'r agenda ataliol a gwaith yn seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda theuluoedd.

### Roedd y trefniadau cymorth arferion a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod trefniadau cymorth cymheiriaid a chymorth cyfreithiol ar gael yn fwy cyffredinol i staff sy'n ymgymryd â'r maes gwaith hwn;
- datblygu templedi perthnasol ac enghreifftiau o arferion gorau a'u dosbarthu i'r staff er mwyn annog defnydd cyson a magu hyder wrth ddefnyddio'r offer; ac
- atgyfnerthu'r trefniadau goruchwylio gan reolwyr, cyn llenwi'r datganiad SWET, er mwyn rhoi sicrwydd bod y dystiolaeth hanfodol berthnasol wedi'i chasglu a'i bod wedi'i chynnwys yn y ddogfen.

### b. Cytundeb asesu enghreifftiol (sy'n nodi'r asesiad a'r cynllun cymorth fel rhan o gam cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus)

Cadarnhaodd pob un o'r awdurdodau lleol fod eu trefniadau yn bodloni disgwyliadau cytundeb asesu enghreifftiol arferion gorau 2021.

- dywedodd **32%** fod eu systemau eisoes yn bodloni disgwyliadau'r cytundeb asesu enghreifftiol.
- roedd **68%** wedi mabwysiadu'r cytundeb asesu enghreifftiol.

#### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

Disgrifiwyd y cytundeb asesu enghreifftiol yn gyffredinol fel adnodd defnyddiol a oedd yn adeiladu ar drefniadau arferion a oedd yn bodoli eisoes, gan gynnwys:

- yr egwyddorion sy'n sail i fodelau arferion gwaith cymdeithasol, fel 'Arwyddion Diogelwch'
- mecanweithiau cynllunio cyfreithiol sy'n cofnodi gwybodaeth berthnasol fel mater o drefn, gan gynnwys amrywiaeth a pherthnasedd yr asesiadau i'w cynnal, unrhyw waith parhaus sydd ei angen a pham, sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gyd-gynhyrchu, ei ddatblygu a'i rannu â phlant a theuluoedd ac ati.

Fel gydag unrhyw fformat newydd, cydnabuwyd bod angen rhoi cyfle i'r arfer o ddefnyddio'r cytundeb asesu enghreifftiol ymsefydlu ac y dylai fod yn seiliedig ar y gwersi a ddysgir o arferion.

### c. A yw 'llythyr cyn gweithredu' yr awdurdodau lleol wedi'i addasu i adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau arferion gorau 2021?

Ymatebodd pob un o'r awdurdodau lleol fod gwaith wedi'i gwblhau neu fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod eu llythyr cyn gweithredu yn adlewyrchu canllawiau arferion gorau 2021.

- nid oedd **5%** wedi newid eu llythyr ac roeddent yn hyderus ei fod eisoes yn adlewyrchu'r arferion gorau.
- dywedodd **90%** o'r awdurdodau eu bod wedi addasu eu llythyr cyn gweithredu i adlewyrchu'r arferion gorau.
- roedd **5%** wrthi'n adolygu eu llythyr er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r arferion gorau.

#### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Gwnaed gwaith i sicrhau bod y llythyrau yn ddigon proffesiynol gan adlewyrchu difrifoldeb y materion ond gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn hygyrch drwy leihau'r defnydd o jargon.
- Roedd templedi ac enghreifftiau wedi cael eu datblygu i gefnogi arferion gorau; gan gynnwys testun rhydd er mwyn gallu teilwra llythyrau at yr amgylchiadau unigol.

**Cwestiwn 3:** **A yw'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol lleol wedi datblygu gwaith, gan ddefnyddio'r Canllawiau Arferion Gorau (adroddiad ar Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021), i ddatblygu siarter parch a rennir ar gyfer sut mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio mewn modd cadarnhaol a sut maent yn cydweithio â theuluoedd i roi cymorth?**

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol fod y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol lleol wedi bwrw ati â gwaith i ddatblygu "siarter parch a rennir" yn unol â chanllawiau arferion gorau 2021, neu ei fod wrthi'n cynllunio gwaith o'r fath.

- roedd **50%** wedi datblygu siarter parch a rennir
- roedd **45%** yn gweithio ar siarter parch a rennir
- nid oedd **5%** wedi dechrau'r gwaith hwn eto.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

Cafodd bwriad ac egwyddorion siarter parch a rennir eu gwerthfawrogi a'u croesawu ar y cyfan. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn nodi bod amrywiaeth o waith wedi'i wneud neu wrthi'n cael ei wneud i fwrw ati â'r gwaith hwn. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gan y Gynhadledd Grŵp Teulu â'r "siarter parch a rennir" yn cael ei chynnwys yn rheolaidd ar yr agenda;
- mabwysiadu modelau arferion a threfniadau sy'n hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi prosesau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd â phwyslais ar arferion gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau a chydberthnasau; a
- gwaith i gynnal archwiliad o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, gan bennu'r camau sydd eu hangen er mwyn helpu i roi canllawiau 2021 ar waith; gan gynnwys trefniadau i awdurdodau rannu a chymharu enghreifftiau o siarteri enghreifftiol, er mwyn nodi'r gwersi perthnasol i'w dysgu.

- Nododd rhai awdurdodau er bod ganddynt "siarter parch a rennir", fod angen datblygu'r argymhellion arferion gorau ar sail ranbarthol.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod y siarter yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol ymhlith partneriaid proffesiynol ac y byddai hyder y gellir dibynnu ar egwyddorion siarter o'r fath yn cymryd amser i aeddfedu.
- Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin y partneriaethau amlasiantaeth o werth y cymorth cyn-achos a roddir i blant a theuluoedd. Mae angen deall hyn yng nghyd-destun dargyfeirio teuluoedd o'r llysoedd ond hefyd yng nghyd-destun y buddiannau y mae gwaith cyn-achos â phwyslais penodol yn eu cynnig, os bydd yr achos yn mynd i'r llys.

**Cwestiwn 4:** **A oes gan wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol systemau rheoli ar waith ar gyfer olrhain mynediad plant a theuluoedd i'r broses cyn-achos, a'i gadael?**

Cadarnhaodd pob un o'r awdurdodau fod gan eu gwasanaethau plant systemau rheoli ar waith ar gyfer olrhain mynediad i'r broses cyn-achos.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau hefyd drefniadau ar waith ar gyfer olrhain teuluoedd sy'n gadael y trefniadau cyn-achos.

- Roedd gan **100%** system olrhain mynediad (i'r broses cyn-achos)
- Roedd gan **95%** system olrhain achosion sy'n gadael (proses cyn-achos)
- Roedd **5%** wrthi ar hyn o bryd yn datblygu system olrhain achosion sy'n gadael.

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

#### Systemau data

- Nid yw gwasanaethau plant wedi mabwysiadu un dull homogenaidd mewn perthynas ag olrhain mynediad i'r broses cyn-achos a'i gadael. Fodd bynnag, roeddent yn hyderus ar y cyfan fod eu systemau yn helpu rheolwyr gwasanaethau plant i oruchwylio'r broses cyn-achos.
- Roedd rhai awdurdodau lleol wedi nodi eu bod wedi neilltuo'r cyfrifoldebau dros olrhain y broses cyn-achos i swyddi penodol.
- Roedd awdurdodau lleol eraill wedi cydnabod budd datblygu eu templedi gweithredol er mwyn cofnodi mynediad i'r broses cyn-achos ac achosion o'i gadael fel gwybodaeth benodol, gan gynnwys y rhesymeg dros y penderfyniadau a wnaed.
- Maent yn cofnodi'r broses cyn-achos fel mater o drefn ar eu system electronig, WCCIS, a gaiff ei diweddaru gan staff cymorth busnes. Roedd rhai yn defnyddio WCCIS i gofnodi penderfyniadau cyfreithiol, storio cofnodion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac ati.
- Nododd sawl ymateb er eu bod yn defnyddio eu system electronig i olrhain y broses cyn-achos eu bod hefyd wedi datblygu neu eu bod wrthi'n datblygu cronfa ddata arbenigol a oedd yn casglu gwybodaeth ychwanegol a bod hyn yn gwella eu trefniadau.

#### Y rhyngwyneb â gwasanaethau cyfreithiol

- Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod trefniadau partneriaeth cryf ar waith â gwasanaethau cyfreithiol a'u bod o'r farn bod hynny'n rhan annatod o'r broses er mwyn cefnogi penderfyniadau amserol a gwybodus ond wedi'u llywio gan gyngor proffesiynol.
- Disgrifiodd rhai eu systemau olrhain fel rhai sy'n eiddo ar y cyd i'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau cyfreithiol, a disgrifiodd eraill systemau sy'n diwallu anghenion yr is-adrannau gwahanol ond yn ategu ei gilydd.

#### Roedd yr enghreifftiau o fecanweithiau olrhain ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- cyfarfodydd/adolygiadau achos cyfreithiol rheolaidd (bob wythnos weithiau), wedi'u cadeirio gan uwch-reolwyr y gwasanaethau plant, i drafod achosion posibl i'w huwchgyfeirio i'r broses cyn-achos, cynnydd yn erbyn cynlluniau, a'r trefniadau ar gyfer gadael y broses cyn-achos neu'r angen i gyflwyno cais i'r llys.
- disgrifiwyd trefniadau o'r fath fel trefniadau a oedd yn helpu i sicrhau bod diogelwch a budd pennaf y plentyn yn rhan greiddiol o'r penderfyniadau a wneir a bod pwyslais priodol ar waith cymdeithasol er mwyn helpu i ddargyfeirio achosion rhag dod yn achosion llys neu rhag dod yn destun cais i'r llys mewn modd amserol.

**Cwestiwn 5:** A oes gan wasanaethau cyfreithiol yr awdurdod lleol systemau ar waith ar gyfer olrhain mynediad plant a theuluoedd i'r broses cyn-achos, a'i gadael?

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau fod gan eu gwasanaethau cyfreithiol systemau rheoli ar waith ar gyfer olrhain mynediad i'r broses cyn-achos a'i gadael.

- cadarnhaodd **82%** fod gan wasanaethau cyfreithiol systemau ar waith i olrhain **mynediad** plant a theuluoedd i achosion cyn-achos.
- cadarnhaodd **77%** fod gan wasanaethau cyfreithiol systemau ar waith i olrhain **ymadawiad** plant a theuluoedd i achosion cyn-achos.

Dywedodd yr awdurdodau nad oedd ganddynt y systemau olrhain hyn eu bod yn datblygu'r mecanweithiau hyn ar hyn o bryd.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Dywedwyd bod rhai gwasanaethau cyfreithiol wrthi ar hyn o bryd yn adnewyddu eu trefniadau olrhain cyn-achos er mwyn ceisio dysgu o'r arferion gorau.
- Nododd gwasanaethau plant y gellid gwella systemau olrhain y gwasanaethau cyfreithiol er mwyn cynnwys cyrchfannau a chanlyniadau tymor hwy i'r plant.
- Roedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau cyfreithiol drefniant olrhain, er enghraifft roedd rhai yn cadw taenlen o bob achos a oedd yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

**Cwestiwn 6.** A oes gan yr awdurdod lleol fecanweithiau sefydledig ar waith i sicrhau bod unrhyw estyniad i hyd y broses cyn-achos y tu hwnt i 16 wythnos yn cael ei nodi ar ddechrau'r broses, ac y cytunir arno mewn cyfarfod cynllunio cyfreithiol perthnasol gyda goruchwyliaeth a chyfraniad uwch-reolwr?

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o awdurdodau eu bod wedi rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod unrhyw estyniad i hyd y broses cyn-achos, y tu hwnt i 16 wythnos, yn cael ei nodi ar ddechrau'r broses, ac y cytunir arno mewn cyfarfod cynllunio cyfreithiol perthnasol gyda goruchwyliaeth uwch-reolwr.

- cadarnhaodd **86%** fod ganddynt fecanweithiau perthnasol ar waith.
- nododd **14%** eu bod wrthi'n datblygu'r mecanweithiau hyn.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Byddai unrhyw newidiadau i'w trefniadau o ran arferion mewn perthynas ag estyniadau bob amser yn adlewyrchu'r canllawiau arferion gorau.
- Disgrifiodd y rhan fwyaf o awdurdodau y trefniadau cynllunio cyfreithiol a oedd ar waith ganddynt wedi'u cadeirio gan uwch-reolwr o'r gwasanaethau plant ac wedi'u holrhain drwy eu systemau TG neu eu systemau cofnodi.
- Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn hyderus bod protocolau ac arferion yn golygu bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r amserlenni a'r angen i ailgynnull cyfarfod cynllunio cyfreithiol pe byddai angen estyniad.
- Caiff amserlenni a phwyntiau adolygu eu pennu fel mater o drefn yn ystod cyfarfodydd cyntaf y porth cyfreithiol a nodwyd bod staff yn anelu at gydymffurfio â nhw cymaint â phosibl er mwyn ysgogi cynnydd ystyrlon a chadarnhaol ac er mwyn atal unrhyw achosion posibl o wyro neu oedi.
- Ceir dealltwriaeth dda o natur unigryw amgylchiadau teuluoedd, a chytunir ar estyniadau drwy'r broses adolygu yn unol â'r angen, er enghraifft, er mwyn rhoi sicrwydd y gellir cynnal newidiadau cadarnhaol neu gynnydd mewn modd diogel.
- Nodwyd, er gwaethaf y ffaith bod mecanweithiau perthnasol wedi'u datblygu a bod trefniadau goruchwylio manwl ar waith gan reolwyr, fod cymhlethdod a natur fympwyol amgylchiadau teuluol yn golygu nad yw bob amser yn bosibl rhagfynegi'r angen am estyniad ar ddechrau'r broses.

**Cwestiwn 7:** **A yw’r awdurdod lleol a CAFCASS Cymru (neu’r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol lleol) wedi datblygu protocol hysbysu cynnar ar gyfer rhoi hysbysiad ymlaen llaw am bob cais gofal/Gorchymyn Amddiffyn Brys, gan alluogi CAFCASS Cymru i wneud trefniadau ymlaen llaw/rhagarweiniol ar gyfer cynrychioli’r plentyn?**

Cadarnhaodd sawl awdurdod eu bod wedi datblygu protocol hysbysu cynnar ar y cyd â CAFCASS er mwyn rhoi hysbysiad ymlaen llaw am bob cais gofal/Gorchymyn Amddiffyn Brys.

- Cadarnhaodd **73%** fod protocol hysbysu cynnar ar waith ganddynt â CAFCASS Cymru.
- Nid oedd **27%** wedi datblygu protocol hysbysu cynnar â CAFCASS Cymru eto, ond roedd gan rai ohonynt drefniadau ad hoc roeddent yn dibynnu arnynt ar hyn o bryd.

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Nododd rhai awdurdodau lleol fod eu trefniadau yn cael eu gwella o hyd a bod angen gwaith i ymsefydlu’r broses er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn cael eu defnyddio mewn modd cyson.
- Nododd sawl awdurdod nad oedd ganddynt brotocol hysbysu cynnar ffurfiol fod y mater ar agenda’r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol a/neu fod y mater yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd chwarterol a oedd yn cael eu cynnal gyda CAFCASS Cymru.
- Nodwyd bod yr e-bost hysbysu yn cynnwys digon o wybodaeth graidd y cytunwyd arni am y teulu a’r plentyn i alluogi CAFCASS Cymru i wneud trefniadau ymlaen llaw/ rhagarweiniol ar gyfer cynrychioli’r plentyn.
- Disgrifiodd y rhan fwyaf o’r rhai hynny yr oedd ganddynt drefniadau hysbysu cynnar â CAFCASS Cymru fecanweithiau lle roedd y gwasanaethau plant neu’r gwasanaethau cyfreithiol yn anfon e-bost ‘hysbysu ymlaen llaw’ i CAFCASS Cymru, gyda rhai ohonynt yn defnyddio porth a ddatblygwyd yn ddiweddar, i nodi eu bod yn bwriadu gwneud cais newydd i’r llys.

**Cwestiwn 8:** **A yw adolygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus o’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi dylanwadu/ cael unrhyw effaith ar farn yr awdurdod lleol/Bwrdd Cyfiawnder Teuluol neu’r defnydd o Adran 76?**

Cadarnhaodd pob awdurdod lleol (100%) fod adolygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus o’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi dylanwadu ar farn yr awdurdod lleol a’r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a’u defnydd o Adran 76.

### Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym

- Gwnaethant nodi bod Adran 76 yn cael ei defnyddio fel mesur ataliol cymesur.
- Roedd eu trefniadau olrhain ac adolygu wedi cael eu hatgyfnerthu’n sylweddol er mwyn sicrhau bod y defnydd o Adran 76 yn briodol ac yn cefnogi gwaith cynllunio sefydlogrwydd amserol ac effeithiol.
- Maent yn rhoi sylw dyledus i Adran 76 wrth wneud penderfyniadau a nodwyd ei pherthnasedd yn enwedig mewn perthynas â lleoli pobl ifanc hŷn a mamau a babanod ac fel ffordd o gefnogi cynlluniau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ogystal ag ymyriadau therapiwtig.
- Croesawyd yr adolygiad o’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ddefnyddio Adran 76 yn gyffredinol ac ystyriwyd ei fod:
  - yn atgyfnerthu’r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd
  - yn cefnogi arferion sy’n seiliedig ar gryfderau sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau
  - yn ffordd gadarnhaol o sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn wrth i waith perthnasol, gan gynnwys gwaith ailuno, gael ei wneud.

**Cwestiwn 9: A yw adolygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi dylanwadu/cael unrhyw effaith ar farn yr awdurdod lleol/Bwrdd Cyfiawnder Teuluol neu'r defnydd o orchmynion goruchwylio?**

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol (95%) fod adolygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi dylanwadu/cael effaith ar farn yr awdurdod lleol/Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ar orchmynion goruchwylio a'u defnydd ohonynt. Nododd y rhan fwyaf gynnydd yn y defnydd o orchmynion o'r fath.

Nododd rhai awdurdodau lleol mai cyfyngedig fu effaith y canllawiau arferion gorau, ond dim ond gan eu bod yn adlewyrchu eu harferion cyfredol.

Mynegodd lleiafrif bach o awdurdodau lleol fwy o amwysedd o ran effaith yr adolygiad ar ddefnyddio gorchmynion goruchwylio a nododd rhai ohonynt fod llai o orchmynion goruchwylio yn cael eu defnyddio.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau eu bod wedi adnewyddu eu polisïau yn unol â'r canllawiau arferion gorau gan bwysleisio'r ffaith mai dim ond mewn achosion eithriadol y dylid argymell gorchmynion gofal.
- Nododd sawl awdurdod eu bod wedi trafod gorchmynion goruchwylio â'r farnwriaeth a CAFCASS Cymru a'u bod bellach yn fwy parod i'w defnyddio.
- Fodd bynnag, nododd rhai eu bod yn wynebu pwysau gan y llysoedd o hyd i ddod ag achosion i ben drwy gyflwyno gorchymyn gofal, gan gynnwys pan oedd y plentyn yn cael ei osod â'i rieni.
- Ystyriwyd bod gorchymyn goruchwylio yn fwy effeithiol na gorchymyn gofal o dan rai amgylchiadau penodol, yn enwedig pan oedd y cynllun yn golygu y byddai'r plentyn yn aros gartref neu'n aros o fewn ei rwydwaith teuluol.
- Nodwyd y dylid datblygu systemau adolygu ategol i sicrhau bod trefniadau ar waith i oruchwylio cynnydd ac i gefnogi ceisiadau amserol i ehangu gorchymyn goruchwylio neu i uwchgyfeirio gorchymyn o'r fath i orchymyn gofal pe byddai hynny'n ofynnol dan yr amgylchiadau.
- Dywedodd pob un o'r awdurdodau fod eu trefniadau yn rhoi ystyriaeth weithredol i orchmynion goruchwylio fel gorchymyn terfynol a'u bod yn cynnwys datblygu cynllun manwl o ran rheoli risgiau a'r gwaith parhaus i'w wneud gyda'r teulu lle byddai gorchymyn goruchwylio yn cael ei ddefnyddio.

**Cwestiwn 10:** **Ers 2021 ydych chi wedi cyflwyno unrhyw fecanwaith newydd i ddal llais a phrofiad y plentyn?**

Cadarnhaodd 100% o'r awdurdodau lleol eu bod naill ai wedi cyflwyno mecanweithiau newydd neu wedi atgyfnerthu trefniadau a oedd yn bodoli eisoes fel y bo angen er mwyn dal llais a phrofiad y plentyn.

**Beth ddywedodd yr awdurdodau lleol wrthym**

- Caiff gwaith uniongyrchol a gwaith i feithrin cydberthnasau â phlant eu gwerthfawrogi fel tasg gwaith cymdeithasol graidd.
- Nodwyd bod ystyried, deall a defnyddio llais y plentyn yn flaenoriaeth a oedd ar waith o ran arferion.
- Mae dealltwriaeth a dadansoddiad proffesiynol o 'brofiad bywyd' y plentyn yn cael ei atgyfnerthu er mwyn llywio'r penderfyniadau a wneir.
- Yn gynyddol, defnyddir trefniadau cynadledda cynnar ar gyfer grwpiau teulu a nodwyd eu bod yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r plentyn o fewn ei rwydwaith teuluol.
- Disgrifiwyd 'beth mae'r plentyn ei eisiau', 'beth mae'r plentyn yn ei ddweud' a 'beth mae hynny'n ei ddweud wrthym am ei fywyd' fel sail i fodelau arferion gwaith cymdeithasol.
- Caiff argaeledd gwasanaethau eirioli annibynnol a'r defnydd ohonynt, yn bennaf ar sail materion penodol, eu hannog drwy gydol cyfranogiad y plentyn â'r gwasanaethau plant. Dywedwyd hefyd fod mwy o gyfleoedd ar gael i rieni ddefnyddio gwasanaethau eirioli.
- Caiff mesurau creadigol eu defnyddio'n amlach, gan gynnwys systemau digidol a rhyngweithiol i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eu hasesiadau a'u cynlluniau ac i gael eu clywed. Cyfeiriodd sawl awdurdod lleol at yr ap 'Mind of My Own'.
- Cydnabu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol nad yw eu gwaith cofnodi bob amser wedi adlewyrchu arferion gan nodi eu bod wedi gweithio i ddatblygu a/neu atgyfnerthu eu trefniadau cofnodi, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyfarfodydd asesu, cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd cynllunio cyfreithiol er mwyn cyfleu llais, dymuniadau a theimladau'r plentyn.

# Atodiad 4: Rhestr termau

**Rhestr termau gydag esboniadau a rannwyd o restr termau a luniwyd gan CAFCASS Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc**

**a.76:** ***Adran 76, llety gwirfoddol*** – Cytundeb rhwng rhieni a gwasanaethau plant yr awdurdod lleol yw cytundeb Adran 76. Mae'n galluogi plentyn (neu blant) i gael ei leoli/eu lleoli â gofalwyr maeth neu aelod arall o'r teulu.

**Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc** – Grŵp o fwy na 50 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 25 oed sy'n byw ledled Cymru a Lloegr ac sydd naill ai wedi cael profiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder teuluol neu sydd â diddordeb mewn hawliau plant a'r llysoedd teulu. Maent yn gweithio i hyrwyddo llais plant a phobl ifanc y mae eu teuluoedd yn chwalu gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n rhan o achosion llys teulu.

**Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol** – Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i wella perfformiad y system cyfiawnder teuluol ac i hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i blant a ddaw i gyswllt ag ef.

**CAFCASS:** ***Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru*** – Sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, ac yna'n rhoi ei farn i'r llys teulu ar yr hyn sydd er lles pennaf pob plentyn.

**Cynhadledd Grŵp Teulu** – Bydd yr holl bobl bwysig sy'n rhan o fywyd plentyn yn dod ynghyd i sicrhau ei fod yn ddiogel. Mae'n golygu bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn ei gadw'n ddiogel.

**Gorchymyn Gofal Interim** – Mae hyn yn golygu mai'r awdurdod lleol sy'n gwneud penderfyniadau am blentyn yn hytrach na'i rieni ei hun yn y tymor byr cyn i'r llys teulu wneud gorchymyn terfynol. Bydd y plentyn yn cael gweithiwr cymdeithasol i wneud y penderfyniadau o ddydd i ddydd.

**Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig** – Mae'r gorchymyn llys teulu hwn yn galluogi unigolyn arall i ddod yn 'warcheidwad arbennig' ar gyfer y plentyn. Mae hyn ar gyfer plant na allant fyw gyda'u rhieni biolegol ac mae'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r gwarcheidwad arbennig er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau ar ei ben ei hun ynghylch bywyd y plentyn.

**Gwarcheidwad plant** – Weithiau, pan fydd problemau teulu yn anodd iawn, bydd y llys teulu yn gofyn i warcheidwad plant ei helpu. Mae'r gwarcheidwad plant yn unigolyn annibynnol sydd yno i helpu'r llys i ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hefyd yn penodi cyfreithiwr i weithredu ar ran y person ifanc yn y llys.

**Swyddog Adolygu Annibynnol** – Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer plant. Eu prif ffocws yw sicrhau bod y broses cynllunio gofal ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc yn diwallu ei anghenion, a sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'w ddymuniadau a'i deimladau ar y pryd.